# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 517 · Chwefror 2021 · Rhifyn Digidol · Am Ddim**


## Blaguro





Wedi blwyddyn o weld pethau'n diflannu – ymweliadau, digwyddiadau, profiadau – y mae calendr byd natur wastad yn ail-ddechrau. Wedi cynni'r gaeaf, a changhennau noethion ar goed, y mae natur yn dechrau deffro o'i drwmgwsg o flaen ein llygaid. O'r lili wen fach i'r briallu, mae'r tir yn dechrau ailfywioli. A chyda'r dernyn lleiaf yn egino, ac yn ymddangos yn y pridd, y mae rhyw obaith newydd yn cyniwair yn y tir. Waeth beth fo'r tywydd, waeth beth sy'n digwydd yn y byd mawr, y mae natur yn bwrw ymlaen gyda'i gynlluniau blynyddol, ac yn dechrau eto.

**Gaeafgwsg**
Term sy'n golygu 'cyflwr o anweithgarwch' yn ôl Wicipedia. A dyna – efallai – ddisgrifiad o'r hyn y bu'n rhaid i ni ei wneud dros y flwyddyn a fu. Rhoi heibio'r prysurdeb arferol, ac arafu. Gwneud beth sydd raid, nid beth sy'n ddymunol. Ac yng nghanol yr 'anweithgarwch' hwn, pwy a all wadu na fu i natur fod ar ei ennill? Onid oedd y môr yn lasach, y gwair yn wyrddach? Ac onid oedd y cynhaeaf yn llawnach? Neu tybed ydym ni fel pobl wedi dechrau sylweddoli, yn ein harafwch ni ein hunain, rinweddau a hyfrydwch yr hyn sydd o'n cwmpas?

**Dyfrio**
Term arall o bwys i fyd natur. Y mae dŵr yn allwedd i fywyd. Ac mae'r gwaith o ddyfrio'r cnwd yn barhaus ym myd natur. Ond y mae math arall o ddyfrio wedi cael ei weld dros y cyfnod cythryblus hwn. Yn ein mysg y mae unigolion sydd wedi bod yn cynnal, bwydo, maethu, gofalu ac yn cefnogi eraill.  I'r rhain, ni fu unrhyw arafu – yr oedd eu gwaith yn parhau. Ac i'r gweddill ohonom sy'n gwylio'u hymdrechion yn ddyddiol, mawr yw'r diolch a'r gwerthfawrogiad.

**Blodeuo**
Dan yr amodau cywir, fe ddaw'r blagur i'w lawn dwf, a chawn y pleser o weld ffynniant byd natur yn ei anterth. Gyda'r brechlyn yn cael ei gyflwyno, diau y gallwn weld fod gobaith go iawn ar y gorwel. Y mae gwreiddyn bach o oleuni yn wawr newydd ar ôl blwyddyn o nosi. A thra bo heriau gwirioneddol o'n blaenau wrth feddwl am ail-wreiddio ein cymunedau, ein traddodiadau, ein diwylliannau, rhaid cydnabod fod y blaguryn lleiaf yn destun gobaith.

---

## Y Cyfrifiad - Mawrth 21, 2021

Arolwg unigryw sy'n digwydd bob 10 mlynedd yw'r Cyfrifiad. Rhydd ddarlun cyflawn o'r boblogaeth a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Bydd y data'n gallu helpu llywodraethau o bob haen, a sefydliadau, i bennu buddsoddiad mewn datblygiadau a gwasanaethau a fyddai o fudd i'ch cymuned, megis trafnidiaeth, addysg ac iechyd. Mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw yn hollol gyfrinachol am ganrif.

Caiff Darren Thomas ei gyflogi fel Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad, yn gweithio yn eich cymuned chi, a hefyd yn ehangach ar draws Gogledd Orllewin Cymru. Bydd yn ceisio cysylltu â phobl yn y gymuned, i drafod y cyfrifiad, ac argyhoeddi'r rhai hynny sydd yn bryderus, neu'n wrthwynebus, bod llenwi ffurflen y cyfrifiad yn hawdd, bod help i'w gael ac nad oes rheswm i beidio ei chwblhau.

Os ydych am gysylltu â Darren, ffoniwch: 07452 934356 neu ebost: Darren.thomas06@field.census.gov.uk . Mae Darren yn barod i gwrdd yn rhithiol â grwpiau neu gymdeithasau i gyflwyno, a siarad am, y Cyfrifiad. Gallwch ddilyn cyfrif cyfryngau cymdeithasol y cyfrifiad: @cyfrifiad2021 a @census2021 ar Facebook, Instagram a Trydar am fwy o wybodaeth.



## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 07815 093955
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
☎ 01248 601606
rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Walter a Menai Williams.

Y golygydd ym mis Mawrth fydd Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG
01248 600297
E-bost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Chwefror,** os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

### ARCHEBU TRWY'R POST

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

### RHODDION I'R LLAIS

**£10.00** Di-enw, Gerlan.
**£8.00** Don Hughes, Halifax
**£10.00** Mrs. Hefina Roberts, Bangor, er cof am ei phriod, Gareth a'i nai, Berwyn.

**Diolch yn fawr.**

### APÊL ARBENNIG Y LLAIS

**Chwefror 2021**
**£15.00** – Paul J. Bernet, Marlow.
**£50.00** – Muriel R. Owen, Pentref Llandygai.
**£25.00** – Di-enw, Rhostrehwfa, Môn.
**£10.00** – Beryl Hughes, Tregarth.
**£10.00** – Rita Hughes, Talybont.
**£20.00** – Gareth Jones, Bow Street, Ceredigion.
**£25.00** – Ann Huws, 9 Ffordd Pendyffryn, Y Fali.
**£20.00**– Di-enw, Pentir.
**£50.00** – Helen Wyn Williams, Rachub.
**£100.00** Caredigion y Llais
**£25.00** Falyri Jenkins, Tal-y-bont, Ceredigion.

**Diolch yn fawr i bawb.**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

### LLAIS OGWAN AR CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

### LLYTHYR GAN NSPCC CYMRU

Annwyl Olygydd,
Mae'r Flwyddyn Newydd fel arfer yn amser i ddechrau o'r newydd - gan wneud addunedau, cadw'n heini, gosod heriau a nodau newydd. Ond gyda'r ansicrwydd parhaus a achosir gan y pandemig COVID-19, mae'n teimlo'n anoddach ymrwymo i wneud newid.


Gyda chyfyngiadau yn parhau, mae'n dod yn bwysicach fyth inni ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o godi arian hanfodol, a recriwtio gwirfoddolwyr, fel y gallwn barhau i helpu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Ers i'r cyfyngiadau clo cyntaf gael eu cyflwyno, gwelwyd cynnydd o 79% yn nifer yr atgyfeiriadau misol cyfartalog o linell gymorth yr NSPCC i asiantaethau fel yr heddlu neu'r gwasanaeth plant yng Nghymru.

O wirfoddoli gyda'n gwasanaeth Childline i godi arian yn rhithiol, mae yna lawer o ffyrdd i barhau i gefnogi ein elusen a helpu i wneud 2021 yn flwyddyn well i blant ledled y wlad.

I ddarganfod mwy am godi arian, ewch i www.nspcc.org.uk/support-us/events-fundraising/new-year-challenge neu i fynegi diddordeb mewn dod yn wirfoddolwr Childline, cysylltwch â volunteermail@nspcc.org.uk.

**Debs Davis**
**Rheolwr Gwasanaeth Childline**
**NSPCC Cymru**






**JAMIAU CARTRA'**
(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
**CADWYN OGWEN**
neu
Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

**Pen-blwydd arbennig**
Dymuna Mrs Helen Williams 5 Llwyn Bleddyn, Rachub ddiolch o galon am yr holl gyfarchion, blodau a rhoddion ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch i deulu a ffrindiau annwyl am eu caredigrwydd. Diolch anferth i Helen am roi blynyddoedd o wasanaeth i Gapel Carmel a rhoi profiadau dros ddegawdau i blant a phob ifanc yr ardal yn yr ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchwn Huw Vaughan Jones, Llwyn Bleddyn ar gael ei ethol i Lywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ogwen yn yr Hydref, ac am gael ei ethol yn gadeirydd pwyllgor cyllid yr ysgol yn ddiweddar. Yr oedd eisoes yn lywodraethwr yn Ysgol Llanllechid.

**Problem**
Gobeithiwn bod Ebony a Dan Hoyland, Tŷ Capel Salem, wedi datrys y problemau yn dilyn digwyddiad anffodus yn y gegin dros wyliau'r Nadolig.

**Cofion**
Dymunwn yn dda i Ann Tugwell o Ffordd Llanllechid a'i theulu ar ol cyfnod o salwch; i Sian Esmor o Ystad Bron Arfon, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth ar ddechrau'r flwyddyn newydd, ac i Gerald (Corbri) Roberts o Tan y Gaer, sydd yn yr ysbyty.

**Diolch**
Diolchwn i Einir Hughes, Pentref Llanlllechid, am siopa dros Glenys Roberts, Hen Barc ac am fynd â chinio Nadolig iddi. Y mae sawl enghraifft tebyg yn yr ardal; e.e. Corrina Williams, Ffordd Llanllechid (a fydd yn symud i bentref Llanllechid yn fuan) yn siopa dros bobl yn ystod y pandemig.


**Clwb yr Henoed**
Mae'n debyg y bydd Clwb yr Henoed, Rachub yn dod i ben gan fod nifer yr aelodau wedi lleihau'n sylweddol ac eraill yn heneiddio. Diolchwn i Ceinwen Hughes, Braichmelyn ac eraill o'i blaen am gynnal y clwb dros y blynyddoedd. Gan fod Clwb yr Henoed, Bethesda wedi darfod ers blynyddoedd, dim ond Clwb yr Henoed, Gerlan sydd ar ôl yn ardal Cyngor Cymuned Bethesda - ond mae eu haelodau'n dod o sawl ardal.

**Diffyg trydan**
Nid oedd trydan yn Rachub am gyfnod oherwydd diffyg ar ben polyn ger is-orsaf Ffordd Tanybwlch, ac yr oedd rhai o drigolion Llwyn Bleddyn yn y tywyllwch am gyfnod hwy, gan nad oedd y golau ger y fynedfa'n gweithio.

**Y Tywydd**
Er y cyfnod anodd, gwelwyd plant yn mwynhau eu hunain yn yr eira, a gwelwyd sawl enghraifft dda o ddyn eira.

**Gaia**
Er i drigolion weld fan efo'r arwydd Gaia arni sawl gwaith yn ddiweddar, nid yw'n wir bod y cwmni technolegol wedi'i adfer!

**Diolch**
Diolchwn i'r cynghorydd sirol Paul Rowlinson am sicrhau mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd (yn unol â chais cynghorwyr cymunedol Rachub) na ddylai cerbydau barcio yn Llwyn Bleddyn wrth i'r gwaith adeiladu fynd yn ei flaen yng Nghae Rhosydd, dros y ffordd i Faes Bleddyn. Diolch hefyd iddo (fel ysgrifennydd Balchder Bro) am fynd i'r nant sy'n rhedeg o dan y bont yn Llwyn Bleddyn a'r grisiau gerllaw, i glirio'r llanastr oedd yno, sef hen flychau ail gylchu, teiars a llond dwy sach o ysbwriel. Diolchwn hefyd i'r cynghorydd cymunedol Godfrey Northam am dynnu sylw at y llanastr ger y bont, am sicrhau fod y biniau halen a graean yn Rachub yn cael eu hail lenwi ar ôl y tywydd gwael, ac am atgoffa cymdeithasau Rachub i ofyn cyn y dyddiad cau am rodd gan Gyngor Bethesda.

**SIOP OGWEN**
yn cynnig gwasanaeth
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

**Croeso**
'Rydym yn falch iawn o groesawu cwpl ifanc i'n plîth, sef Ceri Ann Jones ac Edward, o Hirael, i Rif 15, Y Pentref - mae Ceri yn gwneud gemwaith. Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Diogelwch**
Mae'n braf gallu dweud bod pawb yn y pentref yn glynu wrth y rheolau cymdeithasol yn ystod y cyfnod anodd yma, a gobeithiwn fedru cwrdd â'n gilydd unwaith eto cyn bo hir.

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
**Gwaeledd**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, neu sydd mewn iechyd bregus.

**Casgliad**
Diolch i bawb sy'n parhau i gyfrannu'n gyson i gynnal a chadw'r adeilad a'r fynwent yn ystod cyfnod y Clo. Ceir manylion pellach am daliadau oddi wrth Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719) a Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**
Yn ystod cyfnod y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac yn ymuno bob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn anfon deunydd addoli yr esgobaeth yn wythnosol drwy ebost. Mae croeso i chi oleuo cannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdod, a dweud gweddi gyda ni.

Diolch i'r Esgob ac i Mary Stallard am anfon y myfyrdodau wythnosol ar lein i bob eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir gwasanaeth Gosber trwy gyfrwng y Gymraeg ar lein bob nos Sul - gweler wefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli.

**Manylion Cyswllt**
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. ☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Croeso i Gerlan**
Dymunwn bob hapusrwydd i Ceri, Anni a Cêt yn eu cartref newydd yn Gerlan. Mae nain a taid (Richard a Rhian Ogwen) wrth eu bodd yn eich cael yn byw drws nesaf iddynt yn Yr Ardd Fawr. Bydd eich ffrindiau yng Nglan Ogwen yn eich colli'n fawr dw' i'n siwr.

**Gadael Gerlan**
Mae Gwyn Williams wedi bod yn byw yn Ffordd Gerlan ers rhai blynyddoedd tan yn ddiweddar. Gobeithio y byddi di'n setlo'n ôl yn hapus yn dy hen gartref yng Nghoetmor.
Pob dymuniad da iti, Paula a'r teulu.

**Cydymdeimlo**
Ar y 10fed o Ionawr, bu farw Robin Lorraine Hughes, Freithwen Isaf, yn Ysbyty Gwynedd yn 77 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad yn fawr efo Ann ei wraig ac efo Elaine, Hefin a Diane. 'Roedd Robin yn daid i Dylan, Lisa, Daniel a Matthew, ac yn hen daid arbennig i Lois, Ifan, Nanw, Celt, Taya, Joe a Bella, a brawd i Ian a'r diweddar Bill. Bydd y golled yn enfawr i'w deulu a'i ffrindiau, ac anfonwn ein cofion atoch i gyd.



Cydymdeimlwn efo Carrie a Patrick Rimes Gwernydd hefyd. Bu farw brawd yng nghyfraith Carrie ac ewythr Patrick, yn Nyfnaint yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch a'r teulu.

**Brysiwch wella**
Anfonwn ein cofion at Dewi Owen, Rallt Isaf, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers ychydig o wythnosau. Gobeithio eich bod yn cryfhau ac y byddwch adref yn fuan, Dewi.

**Eira**
Er bod yr eira wedi creu trafferthion i rai, 'roedd eraill yn amlwg wrth eu bodd wrth i nifer o deuluoedd basio drwy Gerlan ar eu ffordd i'r mynyddoedd. 'Roedd llawer yn tynnu sled, a nifer fawr yn cario sgïau a byrddau eira, gan wirioni ar y ffaith eu bod yn cael sgïo ar eu stepen drws– yn arbennig gan nad yw'n bosibl teithio i'r Alban a thramor. Dyma lun a dynnwyd uwchben Cwm Idwal gan Tom Laws a fu'n sgïo ei hun. Diolch am rannu'r olygfa hyfryd yma, Tom.

**Busnes newydd yn y Dyffryn**
Os ydych yn edrych am wasanaeth fframio – boed yn lun neu baentiad, yna nid oes raid i chi edrych ymhellach na busnes newydd Morgan a Beca Griffith o'r Gerlan. Mae eu busnes newydd - STIWDIO FFRÂM - yn darparu fframiau cyfoes, syml a chwaethus mewn amrywiaeth o bren, staeniau, cwyr gyda mowntiau, mowntiau arnofio neu fframiau blwch. Mae pob ffrâm yn cael ei greu yn unigryw ar gyfer eich chwaeth ac arddull chi. Felly os oes gennych unrhyw beth sydd angen ffrâm, cefnogwch fusnes lleol drwy gysylltu â Morgan a Beca ar stiwdioffram@gmail.com neu 07885853547 ac ewch draw i'r wefan www.stiwdioffram.com am sbec.
Pob lwc i chi'ch dau – mae hi mor dda gweld busnesau newydd yn cychwyn yn y Dyffryn!

stiwdio Ffrâm



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB CSCS

www.llaisogwan.com @Llais_Ogwan

# Mynydd Llandygai

**Casglu newyddion**
Oherwydd y newyddion trist a ddaeth i law am farwolaeth Mrs Theta Owen yn ddiweddar, – bu Mrs Owen yn casglu newyddion yn y Mynydd ar gyfer Llais Ogwan dros y blynyddoedd, – 'rydym wedi gorfod chwilio am gasglwyr newyddion newydd i lenwi'r bwlch. Bellach, 'rydym yn falch o allu cyflwyno manylion cyswllt Iona Rhys a Ffion Jones. 'Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddwy ohonynt am gytuno i fod yn gyfrifol am gasglu newyddion. Dyma fanylion cyswllt Iona a Ffion, er mwyn i chi anfon eich newyddion neu stori ddiddorol i'w rhannu gyda darllenwyr y Llais.

Iona Rhys, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan. Ffôn: 602863
ionarhys@yahoo.co.uk

Ffion Jones, 1 Llwybr Main
Ffiff22@hotmail.com

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@
hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Ymddeoliad**
Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Mr. Arwel Hughes, Ffordd Garneddwen, wedi iddo ymddeol ddiwedd Rhagfyr 2020.

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at Mrs. Dilys Edwards, Coetmor, wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â dau deulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-
Jack ac Elen Wilson a'r teulu. Collodd Elen ei brawd, Charles, yn Leeds. 'Roedd yn fab i'r diweddar Joseph a Dilys Parry, Stad Coetmor.
Ian a Brenda Hughes a'r teulu, Rhes Gordon, yn eu profedigaeth o golli brawd Ian, sef Robin Hughes o'r Gerlan.

**Marwolaethau**
*Margaret Swift*
Ar 14 Ionawr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Margaret Swift (Maggie Co-op), 8 Maes Coetmor, yn 72 mlwydd oed - priod annwyl Mr. Ted Swift, mam garedig i Melanie, Michelle, Marie a'r diweddar Darren, a nain hoffus i Sam, Lucy, Tara, Lexi, Dion a Myla. 'Roedd yn chwaer a chwaer-yng-nghyfraith i Mr. a Mrs. Wyn Williams, Rhes Tabernacl, Mr. a Mrs. Eirwyn Edwards, Rhiwlas, a'r ddiweddar Mrs. Rhian Jones.
'Roedd yn wraig ddawnus iawn gyda'i dwylo, a'i gwau a'i gwaith crosio yn arbennig. 'Roedd yn aelod o Gapel Carmel a Chlwb Gorffwysfan.
Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, 22 Ionawr, gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Ddoctor Hugh John Hughes. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

*Mair Eluned Jones*
Yng Nghartref Ceris Newydd, ar 17 Ionawr, bu farw Mrs. Mair



**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Mrs Daisy Jones, 1, Maes y Garnedd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 2. Dyma lun rhagorol ohoni yn dathlu gyda'i merch, Jan.

Eluned Jones, 27 Glanogwen, yn 93 mlwydd oed - priod annwyl y diweddar Mr. Islwyn Jones, a mam Gwynfor, Ann, Elwyn, Carys, Richard, Marian a Brenda. 'Roedd hefyd yn nain a hen nain hoffus. Bu gwasanaeth ei hangladd yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor, ddydd Llun, 25 Ionawr. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

*Cynthia Ordish*
Ar 17 Ionawr bu farw Mrs Cynthia Ordish, o Lansannan, ger Henllan, ar ôl salwch hir. 'Roedd yn briod â Bill, ac yn chwaer i'r diweddar Mr.Geoffrey Davies, Douglas Arms, a chwaer a chwaer-yng- nghyfraith i Mrs. Juliet a Mr.Gareth Williams, Rhes Ogwen.
'Roedd wedi gadael Bethesda ers blynyddoedd maith, gan fyw yn Plymouth, Winsford ac wedyn, Sir Ddinbych.
Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu profedigaeth.

*Emyr Roberts*
Yn sydyn iawn yn ei gartref yn Ffordd Ffrydlas bu farw Mr Emyr Roberts, priod annwyl Margaret a thad balch Diane a Gwyn, Nigel a Sioned, taid hwyliog Siân, Carwyn, Ceri, Gwion, Gethin, Gwenno a Iestyn a hen daid i Noah. Ar ôl bod ar y môr treuliodd Emyr ei ddyddiau gwaith fel peiriannydd yn Chwarel y Penrhyn. Wedi ei ymddeoliad treuliodd ei amser yn chwarae ei hoff gêm, sef bowls, ac 'roedd wrth ei fodd yn cynrhychioli Clwb Bowlio Bethesda mewn cystadlaethau. Byddai ef a Margaret yn treulio llawer o oriau difyr yng nghwmni aelodau'r clwb ar y lawnt yn Lôn Newydd. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich profedigaeth sydyn a disymwth.

**Neges o ddiolch**
Derbyniwyd gan Dilwyn Owen, Erw Las:
"Llawer o ddiolch i bawb fu'n ymholi amdanaf yn ystod fy ngwaeledd diweddar. Mae eich cefnogaeth yn golygu llawer i mi."
Da deall dy fod yn gwella'n foddhaol, Dilwyn – pob dymuniad da.

**Pen-blwydd**
Pen-blwydd hapus yn 21 oed ar Chwefror 15 i Owain Rhys Morgan, Park Villa, Lôn Newydd.

**Sioe Dyffryn Ogwen 2021**
Oherwydd y pandemig, penderfynodd Pwyllgor y Sioe na fydd y Sioe yn cael ei chynnal eleni, ac er ein bod i gyd yn siomedig, mae'n sicr y byddwn fel trigolion y Dyffryn yn deall i'r dim y rhesymau dros wneud y penderfyniad anodd hwn. Dymunwn yn dda i'r rhai hynny sydd yn gweithio'n galed i gynnal gweithgareddau'r Dyffryn, gan obeithio y bydd y sefyllfa yn llawer gwell ymhen blwyddyn.

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead** Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Yr Eglwys Unedig

**GWASANAETHAU**

Er gwaethaf y sefyllfa bresennol, 'rydym yn falch o fedru cynnal gwasanaethau ar foreau Sul dros y ffôn. Llwyddwyd i lenwi pob bore Sul ers dechrau'r flwyddyn, ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am ddod atom yn rhithiol i'n harwain mewn addoliad: Mrs Nerys Griffiths; Mrs Ceri Dart; Mr Gwilym Williams; Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans; Y Parchedig Gwenda Richards; Mr Richard Morris Jones; Mr Richard Lloyd Jones. Dyma'r rhai fydd yn cynnal y gwasanaethau yn ystod yr wythnosau nesaf (pob un am 10 o'r gloch):

Chwefror 21: Y Parchedig Olaf Davies
Chwefror 28: Y Parchedig Trefor Lewis
Mawrth 7: Y Parchedig John Owen, Rhuthun
Mawrth 14: I'w drefnu
Mawrth 21: Mr Gwilym Williams

Mae croeso cynnes i unrhyw un ohonoch i ymuno â ni ar y ffôn – dyma'r cyfarwyddiadau:

Deialu: 03330 164 757, ac ymhen ychydig eiliadau, gofynnir i chwi ddeialu rhif ystafell, sef:
110 445 70#, ac yna gofynnir i chwi ddeialu rhif pin, sef:
4414#

A dyna chi –'rydych wedi ymuno â'r gynulleidfa! Cofiwch ddweud pwy ydych, er mwyn i ni gael eich croesawu. Edrychwn ymlaen am eich cwmni.

**YR YSGOL SUL**

Mae'n chwith iawn gennym nad ydym yn cael cwmni'r plant ar hyn o bryd, ond 'rydym yn falch o allu dweud bod Siôn Corn wedi ymweld â charreg drws cartref pob un ohonynt yn ystod y Nadolig, i ddosbarthu anrhegion iddynt ar ein rhan fel Eglwys. Diolch i'r athrawon gweithgar am drefnu.

**COFION**

Mae amryw o'r aelodau wedi bod yn cwyno yn ddiweddar, a dymunwn adferiad buan iddynt oll. Cofiwn hefyd am y rhai sydd mewn cartrefi gofal, a'r rhai sydd yn unig yn eu cartrefi eu hunain. 'Rydym yn dal i wneud ein gorau i gadw cysylltiad cyson ar y ffôn gyda hwy, ac yn gobeithio y byddwn yn gallu ymweld â hwy cyn bo hir.

**NEWYDDION DA**

Erbyn hyn, mae nifer sylweddol ohonom wedi derbyn y brechlyn cyntaf, ac 'rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith caled sydd yn mynd ymlaen yn y Feddygfa yma ym Methesda, a'r Ysbyty Enfys ym Mangor. Diolch o galon i bob un sydd yn rhan o'r ymgyrch i'n diogelu. Dyma gerdd newydd sbon o waith Euryn Ogwen Williams, sydd yn crynhoi yr hyn y gallwn ninnau i gyd ei wneud i helpu erail:

**CAREDIGRWYDD**

Trwy weithredoedd bach o gariad
Gallwn wneud y byd yn well,
Gwên, cymwynas, a rhoi cymorth
Sydd yn taflu golau 'mhell.
Mae'n oleuni
Sy'n dileu'r anobaith mawr.

Teimlo gwacter yr unigrwydd
Sydd yn llethu rhai o hyd,
Awn i lenwi peth ohono –
Dangos ochr orau'n byd.
Caredigrwydd
Ydyw'r eli ar y briw.

Os yw'r lliwiau sydd o'n cwmpas
Yn troi'n llwyd, a du a gwyn,
Gallwn baentio darlun newydd –
Gobaith wedi'r dyddiau hyn.
Gyda chariad
Mae gweithredoedd bach yn fawr.
*Euryn Ogwen Williams*

Anfonwn ein cofion atoch i gyd, gan obeithio y cawn gwmni ein gilydd cyn bo hir.

# Glasinfryn a Chaerhun

**Gwaeledd**

Mae Mrs Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri, Waen Wen, wedi bod drwy'r drin yn ddiweddar, gan dderbyn llawdriniaeth ar ei llygad unwaith eto. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan iddi.

Yr un yw'n dymuniadau i, a'n cofion at Mr Alan Jones, Bwthyn y Waen, Waen Wen, sydd wedi dioddef o anhwylder ers blynyddoedd bellach.

**Profedigaeth**

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mr a Mrs Dylan Roberts a'r plant, sef Seren a Griff. Bu farw nain Leah, a hen nain y plant, sef Mrs Sheila Roberts, Stryd y Deon, Bangor ar Ionawr 30. Cofion atoch, deulu bach.

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

# Eglwys Crist, Glanogwen

Wel, mae nifer wedi derbyn y frechlyn bellach, a da o beth yw hynny; gobeithio'n fawr y byddwn i gyd wedi'i dderbyn cyn bo hir. Er hynny, rhaid dal ati i gadw at y canllawiau er mwyn cadw'n hunain, ein teuluoedd a'n cyfeillion yn iach.

Diolch yn fawr i bawb sydd yn dal ati i gyfrannu at gostau cynnal a chadw'r eglwys, mae pob cyfraniad yn help. rhowch ganiad os am inni basio unrhyw arian i'r Trysorydd. Cofiwch hefyd bod cardiau cyfarch ar gael bob amser am £1 yr un er budd yr eglwys, dim ond cysylltu â Barbara.

Oherwydd datblygiad cynyddol y feirws yn y Gogledd, penderfynwyd, fel sawl enwad arall, mai'r peth doeth er lles pawb fydd gohirio gwasanaethau ar hyn o bryd. Rhown wybodaeth ar y Cyfryngau Cymdeithasol, ac ar bosteri yn lleol, pan fyddwn yn ail-gyfarfod.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd wedi dioddef salwch, unigedd neu brofedigaeth dros y cyfnod trist hwn, a gobeithiwn fel pawb arall am oleuni gobeithiol yn y dyfodol agos.

**Manylion Cyswllt**:

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

# DementiaGo yn lansio gwefan newydd

Mae DementiaGo, sef rhaglen gweithgaredd corfforol ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael diagnosis a'u gofalwyr, teulu a ffrindiau, wedi'i sefydlu ers 2014, ond gyda dyfodiad Covid-19 'roedd yn rhaid i sesiynau wyneb yn wyneb ddod i ben, yn ogystal â 13 o ddosbarthiadau ymarferion ar waith ledled Gwynedd, gyda thros 150 o bobl yn cymryd rhan bob wythnos.

Er mai ymarfer corff a gweithgaredd corfforol yw prif elfen y prosiect, mae'r gwasanaeth wedi esblygu i fod yn fwy na dosbarthiadau ymarfer corff yn unig. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon cymunedol, anturiaethau awyr agored, dawnsfeydd a digwyddiadau arbennig. Mae'r tîm yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth dementia yn y gymuned, ac yn dod â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia ynghyd i ddweud eu dweud ar sut i wella'r gwasanaeth. Er bod yr opsiynau hyn wedi'u gohirio ar hyn o bryd, mae'r tîm wedi ymateb i'r pandemig, gan gynnig cefnogaeth barhaus i aelodau yn cynnwys gweithgareddau ar-lein.



Rhai o aelodau tîm Dementia Actif Gwynedd
(llun wedi'i dynnu cyn Covid-19)

Er mwyn cyfleu'r holl wahanol agweddau, dewisodd y tîm, mewn ymgynghoriad â'u haelodau, enw newydd - Dementia Actif Gwynedd, a sefydlu gwefan newydd.

Arianwyd y wefan trwy roddion gan deuluoedd er cof am anwyliaid.

Dywedodd Emma Quaeck, Rheolwr Dementia Actif Gwynedd: "'Rydym ni wir eisiau i'r wefan fod yn safle sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn adnodd y gall pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia a'u teuluoedd fynd i ddod o hyd nid yn unig i'r gweithgareddau 'rydym ni'n eu cynnal, ond hefyd eu rhoi mewn cyswllt â gwasanaethau a sefydliadau yng Ngwynedd sydd yno i'w helpu a'u cefnogi.


"Mae'r wefan yn llawn delweddau cadarnhaol, hapus a lliwgar ac 'rydym ni'n mawr obeithio y bydd yn adnodd gwerthfawr i helpu pobl i ymdopi a byw cystal â phosibl â dementia.

"'Rydym ni'n hynod ddiolchgar am yr holl roddion caredig yr ydym wedi'u derbyn ac yn gobeithio ein bod ni wedi gwneud defnydd da ohonynt drwy greu adnodd gwerthfawr yma yng Ngwynedd."

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Oedolion, Iechyd a Lles: "Mae'r wefan newydd hon yn golygu y gallwn barhau i gynnig gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda dementia er gwaethaf y cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd oherwydd pandemig Covid-19.

"Mae'n ein galluogi i weithio gyda'r gwasanaeth iechyd i ddarparu gofal arbenigol i bobl â chyflyrau fel dementia yn eu cymunedau, drwy gynnig nid yn unig ymarfer corff a gweithgaredd corfforol, ond hefyd adnoddau gwerthfawr i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd."

Gellir gweld y wefan newydd yma: https://www.dementiaactifgwynedd.cymru/




Gwefan newydd Dementia Actif Gwynedd]

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

# Hanes Wil Bach

## Addaswyd a golygwyd gan Derfel Roberts

Straeon bywyd y diweddar Wil Williams (1919 -2011), un o hogia Pesda a symudodd i fyw i Gaergybi. Yn y ddau rifyn diwethaf' o Lais Ogwan fe gofiwch i ni gyhoeddi peth o hanes Wil bach pan oedd o'n brentis barbwr, efo'r diweddar Tomi Jones y Barbwr ar Stryd Fawr Bethesda yn y 1930au. Diolch i'w nai, George Owen (George Ty'n Llidiart) am gadw atgofion Wil i ni gael eu mwynhau.

Yma, mae Wil yn adrodd ei hanes wedi iddo orffen ei brentisiaeth.

Yn ddeunaw oed wedi gorffen fy mhrentisiaeth fel barbwr yn Pesda, daeth tro ar fyd a minnau'n gadael cartref am y tro cyntaf. Peth digon trist i lanc ifanc oedd 'gadael y nyth' a mynd i ardal ddieithr, ond yn fwy na hynny yn fy hanes i, roedd rhaid mynd 'dros y môr'.

Dyma'r dydd yn gwawrio pan gefais fy hun yn mynd dros Bont y Borth am y tro cyntaf a'r ddau lew tew yn edrych yn ffyrnig arnaf. Wedi cyrraedd dros y dŵr yn ddiogel dyma fi'n glanio yn y diwedd mewn tref adnabyddus ym Môn sef Caergybi!

Cefais y fraint o ddechrau gweithio mewn siop lled enwog yn y cyfnod hwnnw sef ' Siop W.T. fel y gelwid hi. Roedd W.T. yn aelod amlwg yn y rhaglen 'Pawb yn ei dro' ar Radio Cymru a gynhyrchwyd gan yr enwog Ifan O Williams.

Roedd Siop W.T. wedi ennill poblogrwydd yn y cyfnod dan sylw fel y gwnaeth siop Jac Oliver yn ei dydd. Yno y deuthum i adnabod cewri pulpudau Môn yn y tridegau a chael y fraint o'u heillio ac o dorri eu gwalltiau. Melys yw'r goffadwriaeth am weinidogion annwyl fel L.G. Lewis Pritchard, Seilo; W.H. Davies, (tad John Howard Davies); John Pugh Jones, Hyfreithon; H.D. Hughes (tad yr Arglwydd Cledwyn Hughes) a Huw Jones, Manceinion, gweinidog Hermon, Y Fali ar y pryd.

Hyfryd oedd gweld Huw Jones yn dod i'r siop yn dwt fel pin mewn papur bob amser ac yn gwisgo pin streips a sbats. Roedd yn gymeriad hoffus a llawn hiwmor. Rwyf yn cofio iddo ofyn I W.T. un bore, "Oes gen ti 'flades' go dda?"

"Oes Mr Jones,' 7 o'clock' ydy eu henwau nhw, y gora' ar y farchnad."

Dyma'r gweinidog yn ateb gyda gwên ddireidus ar ei wyneb, "No good, no good W.T. - ti'n gweld, dydw i ddim yn codi tan ddeg."

Awyrgylch hyfryd oedd yn siop y barbwr yn y dyddiau hynny.

Un o'r cwsmeriaid cleniaf oedd yn dod i'r siop oedd y Doctor Thomas Williams, Gwalchmai, neu Tom Armenia fel y'i gelwid ran amlaf, oherwydd iddo fod yno dair gwaith fel gweinidog. (treble chance o'r fath orau) Roedd o'n sant o ddyn ac yn 'heavyweight" yr hen gorff a phersonoliaeth hyfryd ganddo gyda gwên annwyl



**Wil Bach a'i frawd yng nghyfraith, Bob Parry, brawd i dad Glenys Kinnock efo Ian Rush a John Charles**

bob amser ar ei wyneb rhadlon. Roedd o'n edrych ar ei orau pan fyddai'n esgyn i'r pulpud. Roedd o'n llenwi cadair y barbwr i'r ymylon a phan oedd o'n cael ei siafio a sebon siafio'n drwch ar ei wyneb doedd hyd yn oed hynny ddim yn ddigon i guddio'l wên. Dydw i ddim yn ceisio seboni'r cennad annwyl o Walchmai er bod gennyf hawl i wneud hynny, oherwydd, wedi'r cyfan, oni chefais i fy mhrentisio gyda'r sebon?

Fe gofia rhai ohonoch y 'faciwîs' yn dod i Gymru o Loegr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dwi'n cofio'r Doctor yn adrodd i mi un pnawn wrth gael siêf am y ddau faciwî a ddaeth i aros dan ei ofal o a'i wraig ym Mryn Arfon, Gwalchmai. Dyma'r doctor yn dweud, "Roedd Mrs Williams wedi rhoi dau blât o lobscows ar y bwrdd i g'nesu eu boliau bach nhw, chwedl Mrs Williams. Roedd cymylau o ager poeth yn codi oddi ar y lobscows a dyma bedwar llygad bach yn edrych yn syn ar y lobscows ac yn amlwg heb weld dim byd tebyg erioed yn Scotland Road, Lerpwl."

Dyma'r ymateb syfrdanol ddaeth allan o enau un ohonyn nhw, "We don't get that at home, we get beer and chips."

Anghofia i byth y geiriau a lefarodd y seraff o Walchmai wrth iddo eistedd yng nghadair W.T. y barbwr bron i hanner canrif yn ôl bellach, "William" meddai "dyna i chi ordor i wraig gweinidog ynte, beer and chips"

19. Cywydd gan Guto'r Glyn (1412 -1493) i Wiliam ap Gruffudd o Gochwillan

Roedd Guto'r Glyn, bardd pwysicaf y 15ed ganrif yng Nghymru, yn gyfaill agos i Wiliam ap Gruffudd a deuai i Gochwillan i aros yn aml. Yn y rhan hwn o'r cywydd mae'n canmol y croeso a'r llety a gâi yno.

Mae da <u>Wiliam</u> i'm dwylaw,
Mae'n feistr ym yn f'oes draw.
Gwely ares goleurym*
A siambr deg sy'n barod ym.
Mae yno i ddyn mwyn a ddêl
Fwrdd a chwpwrdd a chapel
A gwych allor <u>Gwchwillan</u>
Ac aelwyd teg i gael tân;

- Gwely ares = gwely gyda thapestri o Arras yn Ffrainc arno

**Hogia'r Chwarel yn y 50au**



Plasty Canoloesol Cochwillan, lle cafodd Guto'r Glyn lety a chroeso



Rhai o weithwyr Chwarel y Penrhyn rhywdro yn y 1950au mae'n debyg. Oes rhywun o ddarllenwyr Llais Ogwan yn adnabod rhai ohonyn nhw? (Diolch i G. Owen, Bangor, (Sling gynt) am y llun.)

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Diolch**

Dymuna Brenda a theulu'r diweddar Buckley Wyn Jones ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedig Ddoctor Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth yn yr Amlosgfa, ac i Stephen Jones, yr ymgymerwr, am ei waith trylwyr. Rhennir y rhoddion hael er cof am Buckley rhwng Cronfa Cyfeillion Ysbyty Gwynedd a Chyfeillion Ysbyty Eryri, mewn gwerthfawrogiad o'u gofal amdano.

**Cydymdeimlad**

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Peter Jones, Iscoed, Graig Pandy, ar Ionawr 10 ac yntau yn 66 oed. 'Roedd yn fab i'r diweddar Robert a Paula Jones, ac yn frawd i Albert a'r diweddar Michael. Anfonwn ein cydymdeimlad at Albert, Carol a Ceri, a gweddill y teulu. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Ionawr 21.

Daeth profedigaeth i ran Lynne Jones a'r teulu, 36 Tal y Cae, a gollodd ei mam, sef Mrs Vivienne Smith o Ffordd Penrhos, Bangor, ar Ionawr 19. Cydymdeimlwn gyda chi i gyd fel teulu.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Kenny Roberts a'r teulu, Bryn y Môr, Pen y Ffriddoedd, ar golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain, sef Mrs Sheila Roberts, Stryd y Deon, Bangor, ar Ionawr 30.

**Croeso**

Croeso'n ôl i Dregarth i Ffion a Dion a'u plant, Iago a Greta. Bu'r teulu bach yn aros yn Fferm Coed Hywel, Glasinfryn, gyda Nain a Taid, sef Olwen a Tudor, tra'n adeiladu tŷ newydd, sef Cae Clyd, yn y pentref. Mae'n siŵr bod Coed Hywel yn dawel iawn ers iddynt symud ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf!

**Llyfr o Ysgrifau**

Yn ddiweddar daeth llyfr newydd allan o'r wasg, sef 'Ymbapuroli', gan yr awdures o Fethel, Angharad Price, ond sydd 'rwan yn byw yng Nghaernarfon. Llyfr diddorol o ysgrifau gan awdures arbennig iawn yw 'Ymbapuroli', ac mae un o'r ysgrifau yn ymwneud yn agos iawn ag ardal Sling. Enw'r ysgrif ydi 'Bara Berlin yn Sling'. Pan oedd Angharad yn ddisgybl chweched dosbarth yn ysgol Brynrefail, 'roedd yn awyddus i ddysgu Almaeneg, a byddai'n dod yn wythnosol i Fronheulog, Sling , at Mrs Renée Ellis Jones i gael gwersi yn yr iaith. Ganwyd Renée yn Luxembourg, cyn i'r teulu symud i'r Almaen. Dysgodd Gymraeg, ac 'roedd yn aelod o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr a nifer fawr o gymdeithasau ym Mangor, ac yn gysylltiedig â'r Brifysgol. Bu farw Renée ym Medi 2016 yn 89 oed, ond mae ei phriod John Ellis Jones yn parhau i fyw yn Fronheulog ac anfonwn ein cofion cynnes ato. Ewch ati i brynu'r gyfrol. Wnewch chi ddim edifarhau.

Hyfryd oedd clywed un o blant Renée a John Ellis Jones ar y radio yn ystod wythnos olaf Mis Ionawr eleni. Mae Rhodri yn ffotograffydd proffesiynol wrth ei waith, ac ers blynyddoedd yn byw a gweithio yn yr Eidal, ac yn crwydro i rannau anghysbell o'r byd wrth ei waith. Bu'n sôn am y sefyllfa wleidyddol yn yr Eidal ar hyn o bryd. Cofion atat tithau Rhodri, ac at dy chwiorydd, Angharad a Catrin.

**Capel Shiloh**

Cofion atoch i gyd yn y pentref gan bawb o aelodau Capel Shiloh. Ein gobaith yw y cawn ailagor drysau'r capel ar y Sul ac ar fore Gwener yn fuan yn y dyfodol. Tan hynny cadwch yn saff ac edrychwch ar ôl eich hunain a'ch cymdogion.

***Llongyfarch aelodau:***

Llongyfarchiadau i un o'n blaenoriaid, sef Wynne Roberts, Bryn Difyr, a ymddangosodd ar y rhaglen 'Cyfrinachau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol' ar sianel 5 yn ddiweddar. Bu Wynne, sydd â gwybodaeth anhygoel am hanes ei fro, yn sgwrsio gydag Alan Titchmarsh am hanes Bethesda a'r chwarel. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael eich cwmni eto Wynne yn y capel a thros baned ar fore Gwener i gael sgwrs ddifyr unwaith eto yn fuan.

Pen-blwydd hapus iawn i un o'n haelodau, Norah O'Brien, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ym Mis Chwefror. Llongyfarchiadau!

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com


**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu


Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000)*

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

## Pentir

Cynrig a Carys Hughes
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
☎ 01248 601318
carys16@hotmail.com

**Pen-blwydd hapus!**
Yn ystod mis Ionawr bu i Ken Chandler, Tan y Foel, Pentir ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.  Cafodd yr anrheg ddelfrydol, sef brechiad yn erbyn Covid-19. Dymuniadau gorau Ken!

**Diffibriliwr**
Mae'r trigolion yn ddiolchgar i Gyngor Cymuned Pentir am osod diffibriliwr wrth fynedfa Tai Isaf, Rhyd-y-Groes.

**Difrod i lôn drol**
Bu i Cynrig Hughes a'r Cynghorydd Elwyn Jones gyfarfod swyddog o Gyngor Gwynedd er mwyn trafod y broblem o gerbydau yn ceisio defnyddio'r lôn drol o Tŷ'n Llidiart i 'Rallt Uchaf.

Ar hyd y blynyddoedd mae cerbydau 4x4 wedi ceisio defnyddio'r lôn drol ac wedi gwneud difrod sylweddol i'r wyneb. Yn ddiweddar mae'r broblem wedi gwaethygu gan fod cerbydau sy'n gwasanaethu cwmnïau gwerthu 'ar lein' wedi ceisio defnyddio'r dramwyfa. Dilyn cyfarwyddiadau megis 'Google Maps' mae'r gyrwyr, gyda'r canlyniad eu bod yn methu mynd yn ôl a blaen, ac felly yn ychwanegu at y difrod.

Edrychwn ymlaen at weld cynllun y Cyngor Sir er mwyn datrys y broblem gynyddol yma.

**Lôn beics i Bentir?**
Gyda beicio wedi dod yn llawer mwy poblogaidd yn ddiweddar, mae angen cysylltu ein cymunedau gyda llwybrau pwrpasol a diogel i'r beicwyr.  Ar hyn o bryd, mae bylchau mawr yn y ddarpariaeth.  Er enghraifft, mae'r llwybr beics o Lanberis yn dod i ben ger garej Beran, ac os am gysylltu gyda Lôn Las Ogwen, mae'n rhaid teithio ar y lôn fawr.

I'r beicwyr, mae cyfnodau clo Covid-19 wedi arwain i lai o draffig, ac yn gwneud y profiad yn fwy pleserus.  Eto, nid yw'n braf rhannu'r ffordd gyda thraffig prysur, gan gynnwys lorïau anferth.

Mae grŵp Parchu Pentir am ymgyrchu i greu lôn beics bwrpasol er mwyn cysylltu ardal Pentir gyda Lôn Las Ogwen yn Felin Hen.

**Tymor mudo**
Gyda'r tymheredd yn cynhesu, mae'r llyffantod a'r brogaod wedi cychwyn mudo yn ardal Rhyd-y- Groes a Lôn 'Rallt.  Bydd rhai ardalwyr yn mynd allan gyda'r nos i gasglu'r creaduriaid sydd mewn perygl o gael eu sathru gan olwynion ceir, gan eu hebrwng yn ddiogel i'r llyn ger Tan y Foel.

# Talent Arbennig gan Rob Evans

Mae'n debyg ein bod i gyd wedi edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf fel blwyddyn erchyll, a'r firws yma wedi ymledu dros y byd i gyd mewn amser mor fyr. Dim ond am dair wythnos oedd y cyfnod clo cyntaf i fod ond dyma ni yn 2021, ac mae'r firws yn dal efo ni, a llawer un wedi colli anwylyd. Mae ein bywydau ni wedi bod fel ffuglen ddi-chwaeth. Yn raddol mae rhywun yn colli gafael ar normalrwydd.

Ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen, ac 'rwyf yn siŵr nad fi oedd yr unig un i ryfeddu ar y cyferbyniad rhwng ein byd ni a byd natur. I'r rhan fwyaf ohonom 'roedd ein byd ar stop tra 'roedd byd natur yn symud ymlaen fel pe bai dim byd yn bod - yn wir, 'roedd byd natur yn ffynnu o gael heddwch oddi wrthym ni. Fe gododd y gwanwyn lawer o galonnau gyda'r dyddiau yn ymestyn ac yn cynhesu. Teimlais golli crwydro llwybr arfordir Sir Benfro, seiclo o gwmpas llynnoedd Cwm Elan, a theithiau wythnosol Cymdeithas Edward Llwyd. Gobeithio y byddwn ni'n rhydd i gael mwynhad llawn o wanwyn 2021.

Ar ddechrau'r clo mawr, 'doedd dim llawer o newid i'n rhaglenni teledu gan fod digon wedi'u cynhyrchu i'n cadw'n ddiddig am ychydig o fisoedd, ond bu llawer o grafu pennau i ddarganfod ffyrdd o gynhyrchu rhaglenni mewn ffordd oedd yn cadw at y rheolau. Yn y cyfamser cawsom wledd o ailddarllediadau. Daeth Dudley yn ôl, ac wrth gwrs yr anfarwol 'Cym On Midffîld' – ni wn amdanoch chi ond 'dw i wedi'u gwylio lawer gwaith, ac maent bob amser yn rhoi boddhad i mi. Cafwyd cyfres o raglenni am brif gymeriadau'r opera sebon Pobl y Cwm pan oedd eu rhifynnau arferol wedi dod i ben. Bu 'Rownd a Rownd' yn ffodus iawn gan nad oes rhifynnau yn ystod yr haf p'run bynnag. Rhoddodd hynny gyfle i drefnu ffordd newydd o ffilmio – ac onid yw'r opera sebon yma mewn lle cyffrous ar hyn o bryd! 'Roedd Elin Fflur yn cael crwydro gerddi rhai o sêr Cymru er mwyn cael Sgwrs dan y Lloer. Ac wrth gwrs, uchafbwynt i rai ohonoch chi oedd gweld sut oedd Hogia'r Wyddfa wedi herwgipio Anthony Hopkins!

Ond y peth sydd wedi sefyll allan i mi wrth edrych yn ôl yw talentau cerddorol ein pobl ifanc. Gwelsom ddrama Te yn y Grug, yn seiliedig ar lyfr Kate Roberts, gwaith ardderchog Al Lewis, a thorf o bobl ifanc talentog yn hapus a hyderus ar y llwyfan. Cafwyd dathliad 30 mlynedd Ysgol Glanaethwy a chawsom hanes Cefin a Rhian Roberts, sef sefydlwyr yr ysgol. Dyma'r ysgol ddrama sydd wedi magu cymaint o'n talentau enwog dros y 30 mlynedd diwethaf - gwelsom lawer ohonyn nhw ar ambell Noson Lawen yn ddiweddar.

Pan ystyrir mai 562,000 o siaradwyr Cymraeg oedd yng Nghymru yn ôl y cyfrifiad diwethaf yn 2011, mae'n syndod ac yn destun balchder bod cymaint o bobl talentog yn ein byd Cymraeg, yn enwedig ymysg y to ifanc.

Dywedir bod balchder yn bechod ond na, nid yw'n bechod os mai balchder yn ein pobl talentog ni ydy o. Felly codwch wydryn iddynt, yn rhai hŷn ac ifanc, a dymunwch ddyfodol disglair iddyn nhw! A diolch i S4C!

# Enwau Dyffryn Ogwen

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.



## Afon Ddôl



Dydy hi fawr o afon; rhyw bwtan bach, cwta ganllath o hyd, yn ymddangos fel pe o le'n byd un ochr i'r ffordd rhwng Grisiau Cochion a Thyn Twr, ger ceg y llwybr i'r parc, gan lifo i ymuno efo Ogwen rhyw ganllath yn is na Phont y Twr. Mae mor fychan fel nad oes fawr neb o drigolion yr ardal heddiw yn gwybod ei henw, na, hyd yn oed, yn gwybod fod ganddi enw. Ond mae ganddi un, ac mae ganddi hanes, ac mae ganddi ei grym. Ar dywydd gwlyb iawn, mae'n gorlifo ei glannau yn rheolaidd, ac yn troi'n afon go iawn. Ac mae'n sicrhau bod yr ardal o'i chwmpas bob amser yn oerach na'r ardal o'i chwmpas.

Afon Ddôl ydy hon, ac mae hi wedi dioddef oherwydd Chwarel Cae Braich y Cafn, oherwydd mae hi, a Llyn Meurig gerllaw, (oedd yn llyn gydag arwynebedd o wyth acer), wedi diflannu o dan domen y chwarel ers ymhell dros ganrif. Diflannu hefyd wnaeth afon Meurig, a lifai, yn ôl map Arolwg 1768, o'r llyn i afon Ddôl. Fodd bynnag, mae map diweddarach Arolwg Degwm 1838-40 ond yn dangos yr un afon yn llifo o'r llyn i Ogwen, ond mae'n amhosibl dweud heddiw ai un ai dwy afon sydd yma. Chwydodd y chwarel ei gwastraff i lenwi'r llyn a'r afonydd, ond ni lwyddodd i'w dileu; dim ond eu cuddio y mae'r domen; mae'r llifogydd rheolaidd ar y lôn gefn ger Bryn Meurig yn dystiolaeth fod dyfroedd y llyn, a lli'r afonydd, yn parhau yn rym nas gorchfygwyd, ac mae'r pwt o afon bresennol sy'n llifo o berfedd y domen, yn dangos hynny'n glir, hefyd.

Pam afon Ddôl? Yn aml iawn, mae afonydd, yn enwedig rhai llai, yn cymryd arnynt enw'r tir y rhedant trwyddo; yn aml, hefyd, maent yn colli eu henw gwreiddiol, ac yn cymryd arnynt enw'r tir hwnnw. Dyna ichi afon Llan, sy'n rhedeg trwy Lanllechid, fel un enghraifft leol. Cymryd ei henw o'r tir y rhed trwyddo wnaeth afon Ddôl, hefyd. Ym 1768 yr oedd dwy fferm fechan o'r enw Dôl y Parc, un yn 14 acer, a'r llall yn 22 acer. Roeddynt yn amlwg unwaith yn un fferm, ac yn ffinio gydag Ogwen. Diddorol fyddai gwybod lleoliad y parc sydd yn yr enw, sef yr un parc ag sydd yn enw'r daliad cyfagos Coed y Parc Roedd daliadau Brynllys, Castell, a chae Bryn Byrddau gerllaw, sy'n awgrym pryfoclyd o fodolaeth tŷ rhyw uchelwr ar un adeg, a gallai'r parc fod yn gysylltiedig â hynny. Beth bynnag, fe geid Coed y Ddôl, hefyd, ble mae rhan o Barc Meurig heddiw, gyda'r gweddill o dan y domen. Yn 1851 nodir, am Goed y Ddôl 'rent reduced 20 shilling a year for land covered with rubbish' (sef y domen). A dyna fu hanes ffermydd Ddôl, y rhan fwyaf o'r coed, a'r rhan helaethaf o'r afon a redai trwy eu tir, diflannu o dan domen Chwarel Cae.

Ond mae hi'n dal yno, yn dal i lifo o'i chaethiwed dan y domen, ac allan ohoni i'w rhyddid o ganllath, gan ein hatgoffa o rym ei lli'.

Trueni fod cyn lleied o drigolion yr ardal yn cofio ei henw heddiw.

## Y Clwb Darllen

Nos Lun, 'roedd hi'n hyn sy'n cael ei alw'n 'Blue Monday' – diwrnod sy'n cael ei gydnabod fel un o'r anoddaf yn y flwyddyn. Gyda'r Nadolig drosodd, a'r gwanwyn eto i ddangos ei wyneb, mae'n cael ei weld fel cyfnod tywyll a llwm, pryd y mae sawl un yn profi iselder.

Er nad oedd yn fwriadol, addas iawn oedd mai hon oedd y noson y bu i Glwb Darllen Dyffryn Ogwen gwrdd i drafod 'Tu ôl i'r Awyr' – nofel gan awdur newydd o Ddyffryn Nantlle, sef Megan Angharad Hunter.

Bydd un o aelodau'r clwb yn ysgrifennu adolygiad llawn yn fuan, ond am rŵan, mae'n ddiogel i ddweud fod pawb yn gytûn fod hon yn nofel arbennig. Mae aeddfedrwydd a chrefft yn perthyn i'r ysgrifennu, sy'n arwain y darllenydd ar siwrnai ddwys, gyda'r ddau brif gymeriad, Anest a Deian – dau berson ifanc – yn wynebu heriau sydd ynghlwm ag iechyd meddwl.

Fel y nodwyd yn y cyfarfod, mae'n anarferol cael nofel lle mae'r naratif yn cael ei arwain gan ddau lais yn y person cyntaf. Ond rhywsut, mae'r ddau yn llwyddo i fod yn hollol unigryw a ffres, ac mae'r arddull yn arddangos, mewn ffordd hollol newydd, sut beth ydyw byw gyda salwch meddwl.

Cymharwyd y nofel hon ag 'Un Nos Ola' Leuad', ac' roedd cytundeb fod hon yn gyfrol sydd wedi ennill ei phlwyf yn sydyn iawn fel un o gampweithiau llenyddiaeth Gymraeg. 'Does fawr o syndod ei bod wedi mynd allan o brint yn fuan ar ôl ei chyhoeddi – mae'n llyfr arbennig sy'n llwyddo i agor y drws i drafodaeth am, a dealltwriaeth well, o faes arbennig o anodd.

Bydd y Clwb Darllen yn cwrdd y tro nesaf ar yr 8fed o Fawrth ac mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni (gellir canfod gwybodaeth yn y grŵp facebook 'Clwb Darllen Dyffryn Ogwen').

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Cydymdeimlo**
Mae'n debyg bod amryw ohonoch yn cofio'r ddiweddar Eirianwen, Roberts gynt, chwaer ieuengaf Gwenfron, Beti Wyn a Gareth. Yn sydyn ac annisgwyl yng Nghaerdydd bu farw ei mab hynaf, Berwyn, yn 64 mlwydd oed. Rai blynyddoedd yn ôl cafodd ddamwain ddrwg a amharodd yn ddirfawr ar ei allu i gerdded. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei frodyr a'i chwiorydd sy'n byw yn y cyffiniau. Diolch i'w fodryb, Mrs Hefina Roberts o Fangor, am adael imi wybod, a hefyd am ei rhodd i'r Llais er cof am ei gŵr, Gareth, a Berwyn.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Ifan Alun Hughes ac Elena Campbell ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae'r ddau yn gweithio ym myd addysg, – Ifan yn dysgu yn Ysgol Pant y Rhedyn, Llanfairfechan, ac Elena ym Modedern. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**Brysiwch wella**
'Roedd yn ddrwg gennym glywed bod Ifor Roberts, Cae Glas, yn yr ysbyty, yn dilyn cael codwm a thorri ei glun. Nid yw wedi bod yn dda ers tro bellach. Cofion hefyd at ei wraig, Iola Roberts.

**Bwyd Bendigedig Rhiwlas**
Dyma'r cyfeithiad o 'Incredible Edible' a sefydlwyd yn Swydd Efrog yn 2008, ac arweinir grŵp Rhiwlas gan Emily Tattersall ac Angharad Owen. Maent yn awyddus i ddefnyddio mannau gwyrdd yn y pentref i dyfu llysiau a phlannu gwrychoedd. Mae croeso hefyd i unrhyw un ymuno â hwy ac maent hefyd yn cydweithio gyda'r ysgol. Cyn y Nadolig cafwyd gweithgaredd ganddynt, sef sut i wneud torch ar gyfer yr ŵyl, a braf oedd gweld plant a rhieni yno. Cafwyd lluniaeth wedi'i baratoi gan Ffrindiau Rhiwlas.



# Peiriant diffibriliwr newydd



Yn ystod mis Rhagfyr bu i grŵp cymunedol 'Diffib Rhiwlas' ymgyrchu i gasglu arian er mwyn prynu ail beiriant diffibriliwr ar gyfer pentref Rhiwlas.

Roedd un peiriant eisoes wedi ei leoli ger arhosfa bws Bro Rhiwen, ond daeth yn amlwg bod angen ail beiriant ar gyfer gwasanaethu pen uchaf y pentref.

Os ydi rhywun yn cael ataliad ar y galon (y galon yn stopio), gall cael diffibriliwr yn agos achub bywydau. Rhaid i diffibriliwr fod o fewn 300metr i'r claf felly roedd yn amlwg bod angen mwy na un peiriant yn Rhiwlas.

Erbyn diwedd Rhagfyr 'roedd y grŵp wedi llwyddo i gyrraedd y targed ariannol a gosodwyd yr ail beiriant diffibriliwr ger mynedfa Cae Glas yn ystod mis Ionawr. Hoffai grŵp 'Diffib Rhiwlas' ddiolch yn fawr i bawb gyfrannodd mor hael - Cyfeillion Rhiwlas; Ysgol Rhiwlas; raffl Sara a Samuel; raffl Ilaria; ac wrth gwrs yr HOLL unigolion yn y pentref sydd wedi rhoi mor garedig.

Mae cael diffibriliwr mewn pentrefi fel Rhiwlas mor bwysig gan fod amseroedd ymateb ambiwlansys yn aml yn hwy mewn ardaloedd gwledig ac mae pob munud yn cyfrif mewn argyfwng fel ataliad ar y galon. Dengys tystiolaeth fod CPR da a defnyddio diffibriliwr mewn sefyllfa ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty yn achub bywydau. Mae CPR yn syml a gall unrhyw un ei wneud... os nad ydych chi'n gwybod sut neu angen gloywi edrychwch ar bhf.org.uk (Sefydliad Prydeinig y Galon) ac os ydych chi eisiau gweld sut i ddefnyddio diffibriliwr sydd hefyd yn syml, edrychwch ar fideo Ambiwlans Sant Ioan ar YouTube sy'n wych!

Bydd hyfforddiant i drigolion y pentref yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

Diolch yn fawr iawn i bawb!

**Cofid 19**
Yn anffodus mae'r aflwydd yma yn ei ôl, gydag amrywiad ohono wedi ymddangos hefyd. Mae'n gyfnod dyrys, ac fel y dywed Mr Formula (Ed Holden), 'rydym yn awr yn byw mewn Normal Newydd. Mae'n rhaid bod yn ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau. Cofion atoch, a chadwch yn ddiogel.

**Cadw Cysylltiad**
Pan ddaeth Côr Clychau'r Grug i ben rai blynyddoedd yn ôl, penderfynwyd ein bod am gadw mewn cysylltiad â'n gilydd, ac felly y bu, gan gyfarfod am goffi, pryd amser cinio neu bryd gyda'r nos. Ond daeth y cyfnod clo, a phenderfynodd Nia Jones, Cae Glas, a Heulwen Parry, cyn athrawes yn Ysgol Rhiwlas, y dylem i gyd fod ar 'What'sApp' ac felly y bu.

Mae'n ffordd hwylus iawn o gyfathrebu gyda'n gilydd, gydag un neges yn mynd i'r grŵp i gyd, ac 'rydym wedi llwyddo i anfon cyfarchion pen-blwydd, cydymdeimlo, a negeseuon 'brysiwch wella' (gan fod un wedi torri ei chlun, dwy wedi torri garddwn a dwy arall wedi cael codwm reit boenus). Mae Nia a Heulwen yn rhai da am anfon negeseuon diddorol a doniol, yn eu mysg sawl cartŵn o Donald Trump ac amryw o rai eraill. Yn ogystal, cawn bennill ar y ffôn weithiau a dyma'r diweddaraf - syml ac amserol.

Ar ôl nadolig tawel
A minnau yn ddiffrwt
Fe ddaw y flwyddyn newydd
A gobaith yn ei chwt,
Mae siawns y cawn ni frechiad
Er mwyn ein cadw'n iach,
Cawn eto weld y teulu
A chwmni'r plantos bach.
Wel dymuniadau gorau
Ar gyfer Dau Ddeg Un
Y piti mwyaf ydy
Ein bod yn mynd yn hŷn.

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Llygedyn o Oleuni**

“Ti ‘di câl dyddiad ar gyfer y brechlyn?” Pwy, mewn difri’ calon, a ddychmygai mai dyna fyddai’r cwestiwn cyntaf ar wefusau pawb, ar ddechrau blwyddyn newydd?

Mae pen rhywun yn troi fel top, efo’r holl rifau a deflir atom yn ddyddiol gan y cyfryngau, ond bellach, gwelwn lygedyn bach o olau ym mhen draw’r twnel.

O dipyn i beth, gwahoddir trigolion Talybont i Dŷ’r Meddyg, neu’r Ganolfan Hamdden i dderbyn eu brechiad cyntaf, ac mae gobaith y bydd yr ail yn dilyn yn y dyfodol gweddol agos. Brysied y dydd!

Bu’n aeaf hir drybeilig, ond mae’r dydd yn ymestyn a’r gwanwyn ar y ffordd. Tystia’r eirlysiau, y briallu a’r cennin Pedr i hynny, fel ym mhob blwyddyn ers cyn côf.

**Brysiwch Wella**

Ychydig iawn o newyddion sydd gennym y tro hwn ond, er hynny, cofiwn yn annwyl iawn at Myfanwy, 68 Bro Emrys, sy’n dal i ddod dros y driniaeth lawfeddygol a gafodd yn Ysbyty Glan Clwyd cyn y Nadolig.

Treuliodd Jamie, ei hŵyr hynaf, rai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, yn dioddef o’r eryr. Hen salwch annifyr ydi hwnnw, sy’n gadael ei ôl am fisoedd lawer. ‘Rydym yn meddwl amdanat, Jamie! Gobeithio ‘fydd hi ddim yn hir nes y byddi di, a Nain, yn teimlo’n well o lawer.

**Cydymdeimlad**

Fe gofiwch, efallai, inni gydymdeimlo ychydig yn ôl efo Mrs Catherine Beynon o Stapleford, Nottingham, pan fu farw ei mab-yng-nghyfraith ar ddiwedd yr haf. Erbyn hyn mae Catherine, hithau, wedi’n gadael, yn 97 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd, ar Ionawr 8ed yn ei hardal fabwysiedig.

Un o Ddeiniolen oedd Catherine yn wreiddiol, yn chwaer i’r diweddar annwyl Richie Jones a ddaeth atom o Riwlas i fyw i 2 Cae Bach.

Er syndod i’w brawd, Saesneg a siaradai Catherine efo Susan, ei diweddar merch, ond rhaid cofio nad yw’n hawdd cadw’n iaith yn fyw yn Nhalybont, heb sôn am Ganolbarth Lloegr! Serch nad yw’r teulu yn deall Cymraeg, maent yn amlwg yn ymwybodol iawn o’u gwreiddiau. Gorchuddiwyd arch eu



Nain gan faner y Ddraig Goch, a safai torch hardd o flodau ar ffurf y faner yn ei hymyl.

Drwy law un o’i ffrindiau pennaf, Helen Wyn, a fyddai wedi canu yn y Gwasanaeth Angladdol heblaw am gyfyngiadau Cofid, mae gennym lun o Catherine efo Sarah ei hwyres, ar ymweliad â’r hen fro.

Coffa da amdani. Mae’n cydymdeimlad dwys efo’r teulu oll yn eu colled.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068


## Ionawr gwlyb yn Nhalybont

(gan Einir Young, 51 Bro Emrys)

Yng nghanol Ionawr 2021 ysgubodd Storm Cristoph ar draws Cymru, ac yn ei sgîl ‘roedd y wlad yn frith o rybuddion llifogydd melyn, oren, a choch hyd yn oed mewn lleoedd fel Bangor-is-y-Coed. Yn ffodus i ni yma, yn wahanol i ŵyl San Steffan 2015, ‘roedd ein tai yn saff, ac i Gynllun atal llifogydd Talybont mae’r diolch am hynny.

Yn ystod y cyfnodau clo llynedd ac eleni ‘rydym yn gorfod dechrau a gorffen ein teithiau cerdded o ddrws y tŷ. Yn ddyddiol bron byddaf i a Layla’r ci yn croesi afon Ogwen dros y bont yn ymyl Melin Cochwillan ac yn rhyfeddu at sut mae lefel y dŵr yn yr afon yn amrywio. ‘Does ryfedd a dweud y gwir, gan nad yw afon Ogwen yn fawr hwy na deng milltir o hyd, gan lifo o Lyn Ogwen i’r môr, a chasglu dŵr o fynyddoedd y dyffryn ar ei ffordd.

Er mwyn difyrru fy hun bum yn tynnu lluniau o’r afon o’r un lle ar y bont bron yn ddyddiol. Mae carreg fawr yn yr afon; weithiau mae’r garreg i’w gweld yn glir, ond dro arall, fel ar yr 20fed o Ionawr ‘roedd o’r golwg. Bedair awr ar hugain yn ddiweddarach’ roedd yr olygfa’n wahanol a’r hyn a’m synodd i oedd pa mor gyflym yr aeth llif yr afon i lawr – fel y gwelwch o’r ddau lun isod:



Yr afon Ogwen yn ei hanterth 20/1/2021.
Dim sôn am y garreg



Yr un afon o’r un llecyn 21/1/2021 –
a’r garreg yn y golwg

Ar y diwrnod arbennig hwn ‘roedd pob ffos, ffordd gul a llwybr wedi troi’n nentydd gwyllt. Ar ôl croesi’r afon o dan bont yr A55 mae’n bosib gweld faint o ddŵr sy’n cael ei ddargyfeirio o’r pentref. ‘Roedd y beipen yn orlawn – ond erbyn trannoeth ‘doedd fawr o ddŵr yn llifo, fel y dengys y lluniau:



Y dŵr yn tasgu drwy’r bibell a’r cynllun atal llifogydd yn gweithio’n dda 20/1/2021



Erbyn trannoeth ‘doedd fawr ddim dŵr yn llifo 21/1/2021

# CHWILAIR

**CHWILAIR CHWEFROR**

## Llyfrau Cymraeg

Yn y chwilair mis yma mae TEITL DEUDDEG LLYFR CYMRAEG i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG Y MAE.

Dyma atebion chwilair Ionawr. Wyddfa; Pen yr Ole Wen; Arenig Fawr; Carnedd y Filiast; Pen y Gadair Fawr; Moel Hebog; Moelwyn Bach; Mynydd Drws y Coed; Esgeiriau Gwynion; Moel yr Ogof; Erw y Ddafad Ddu; Waun Fach.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | H | C | A | B | I | R | R | A | H | N | O | E | A | R | T | S | A | W | F |
| H | R | N | I | E | J | L | B | O | I | S | Y | L | O | R | I | S | C | M | B |
| V | S | E | O | N | O | I | F | O | G | T | A | N | A | T | S | Y | L | E | Y |
| B | H | X | J | M | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | L | D |
| W | H | U | Z | M | S | M | E | R | C | H | O | R | C | W | M | X | O | V | A |
| D | D | N | A | P | A | I | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | N | Q | Z | G |
| R | H | C | U | M | W | N | L | O | Y | R | I | A | S | Z | W | U | T | F | D |
| X | U | P | W | R | H | C | Q | P | H | W | E | H | O | E | Y | E | E | G | E |
| O | M | H | E | P | T | T | C | B | U | B | C | U | N | U | J | P | L | T | M |
| I | T | U | C | H | A | N | O | F | L | A | E | N | D | U | W | V | V | U | D |
| C | B | B | F | R | F | O | G | I | J | V | R | I | I | R | R | X | I | A | M |
| H | T | T | O | S | K | O | P | W | W | R | C | E | M | K | C | B | O | I | R |
| C | X | V | R | Y | H | S | T | M | R | I | E | F | S | Y | J | D | Z | D | H |
| B | C | W | O | S | C | R | A | I | X | N | C | I | L | E | X | J | J | D | M |
| B | W | T | E | X | M | D | X | K | F | U | P | A | C | Q | L | Y | O | I | I |
| L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | G | W | F | S | L | P | Z | E | E |
| B | E | A | D | D | A | G | W | R | D | L | A | F | A | Y | A | J | K | R | J |
| C | C | O | M | D | Y | B | L | N | L | R | V | O | J | G | P | W | P | W | G |
| S | D | Y | G | I | A | N | Y | D | A | F | O | G | I | N | Y | W | D | G | O |
| W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A |



DYMUNA
SIÂN GWENLLIAN
DDWEUD
DIOLCH O GALON
I WEITHWYR ALLWEDDOL A GWIRFODDOLWYR
YN YSTOD Y CYFNOD COVID
OBLAID.CYMRU
01286 672076
Plaid Cymru
Party of Wales

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

**Y mis hwn dan ni am edrych ar yr hyn oedd yn digwydd yn hanes y côr yn 1976 a phwy oedd rhai o'r cymeriadau mwyaf blaenllaw ar y pryd. Yn Llais Ogwan Ionawr 1976 adroddwyd bod Cyfarfod Blynyddol y côr wedi cael ei gynnal ac yn y cyfarfod hwnnw dyma rai o'r penderfyniadau.**

**Tâl aelodaeth yn codi i 10c yr wythnos**
Penderfynwyd codi'r tâl aelodaeth o 5c i 10c yr wythnos sy'n gwneud cyfanswm o ychydig dros £5 y flwyddyn. Cymharer hynny â'r tâl aelodaeth presennol sy'n nes at £50
Yn y cyfarfod hwnnw hefyd dewiswyd y canlynol yn swyddogion;.

**Cadeirydd** - Mr Harri Roberts, Gerlan
**Is-gadeirydd** - Mr Huw Jones, Carneddi



**Ysgrifennydd** - Mr Caeron Roberts. Tregarth
**Is-ysgrifennydd** - Mr Walter Williams, Bethesda
**Arweinydd** - Mr Rowland Jones, Y Coleg Normal
**Dirprwy Arweinydd a Chyfeilydd** - Mr James Griffiths, Waun Wen.
**Dirprwy gyfeilyddion** - Miss Alwenna Hughes, Bangor a Mr Brian Pritchard, Bethesda
**Llyfrgellydd** - Mr B. Alun Williams, Bethesda
**Trysorydd** - Mr Gwyn Burgess, Bethesda
**Swyddogion Cyhoeddusrwydd** - Mr Godfrey Northam, Bethesda; a Mr Huw Gwilym Jones,
**Pwyllgor**
Y swyddogion uchod ynghyd â;
Mr Dyfrig Williams, Tregarth,
Mr Dafydd Evans, Penisa'r-waun
Mr Bobby Thomas, Gerlan
Mr Tecwyn Jones, Bethesda
Mr Gwilym Evans, Rachub

**Haeddu medal**
Diddorol ydy sylwi bod tri o'r rhai a enwyd uchod yn dal yn aelodau o'r côr a hynny 46 o flynyddoedd yn ddiweddarach, sef **Mr Walter Williams, Mr Gwyn Burgess a Mr Dafydd Evans.** Petai medal ar gael gan y côr am wasanaeth hir a ffyddlon, dyma dri fyddai'n cael eu gwobrwyo'n ddi-os.

**Ymwelydd pwysig**
Ym Mis Chwefror 1976 talodd un o enwogion y byd cerddorol Prydeinig ymweliad â'r côr, pan ddaeth Dr George Guest, Cyfarwyddwr Cerdd Coleg Sant Ioan, Caergrawnt i Fethesda i wrando ar y côr yn ymarfer. Roedd Cystadleuaeth 'Côr y Flwyddyn, a gynhelid dan nawdd Cymdeithas y Celfyddydau Gogledd Cymru, yn cael ei chynnal yr adeg honno. George Guest oedd y beirniaid ac roedd addewid y byddai'r enillwyr yn cael cymryd rhan mewn cyngherddau lle'r oedd sicrwydd o elw o £50 am bob perfformiad.

Mae'r adroddiad yn dirwyn i ben drwy nodi bod 12 o gorau'n cymryd rhan a bod Dr Guest wedi treulio awr yn gwrando ar y côr cyn mynd yn ei flaen i Fae Colwyn i wrando ar gôr arall.

Mewn ôl nodyn ar ddiwedd yr adroddiad dywedir mai Côr y Brythoniaid o Flaenau Ffestiniog a enillodd y gystadleuaeth. Nid oes cofnod i ddweud beth oedd safle Côr y Penrhyn.



# Cymeriadau'r Côr

**Cymeriad y Côr y mis hwn ydy Alun Ellis o'r Felinheli sy'n gweithio yng Ngholeg Glynllifon.**

**Be ydi dy enw llawn?** Alun Owen Ellis
**Oed?** 41
**Gwaith?** Athro Anghenion ychwanegol yn y coleg yng Nglynllifon.
**Lle wyt ti'n byw?** Y Felinheli.
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Rhwng dwy afon yn Rhoslan.
**Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifio orau?** Cymdeithasol, amyneddgar, ac ymroddedig.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers yn agos i ddwy flynedd bellach.
**Pa lais wyt ti?** Ail fas
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**
Rydw i wedi bod yn aelod o gorau meibion a chorau cymysg ers dyddiau coleg. Pan symudais i'r Felin daeth cyfle i ymuno gyda Chôr y Penrhyn. Pwy allai wrthod cynnig o'r fath?
**Pa un ydi hoff gân yn rhaglen y côr?**
Cwestiwn da, mae gen i amryw i ddweud y gwir ond o bosib' fy ffefryn oll ydi *'Gwinllan a roddwyd i'm gofal'*. Mae hi bron yn ail anthem i ni yng Nghymru ac mae'r trefniant yn bwerus dros ben.
**Pwy ydi dy hoff ganwr / gantores?** Dwi wrth fy modd efo llais Ray Peterson, ond ar sbectrwm hollol wahanol dwi hefyd wrth fy modd efo Led Zeppelin ac wrth gwrs, unrhyw un o unawdwyr y côr!
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n defnyddio cryn dipyn o gerddoriaeth yn fy ngwaith, felly does gen i fawr o ddewis ond ymdrechu i wrando ar y caneuon pop mae'r dysgwyr yn eu mwynhau.
**Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Ha ha! Sawl atgof. Mae elfen gymdeithasol y côr lawn mor bwysig â›r canu ond mae'n rhaid i mi ddweud bod Somerset House a Glastonbury wedi bod yn uchafbwyntiau arbennig. Un arall sydd yn aros yn y cof ydi pan oedden ni'n canu yn yr Eglwys ym Metws y Coed. Daeth hen wreigan ataf amser egwyl a sgwrsio am y cyfnod pan oedd ei thad yn aelod o Gôr y Penrhyn. Fel plenty, oddeutu wyth deg mlynedd yn ôl, roedd hi wrth ei bodd yn gwrando ar ei thad yn ymarfer yn y parlwr gorau!
**Pa ddiddordebau eraill sydd gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi wrth fy modd yn nofio ac yn cerdded mynyddoedd Cymru a'r Alban gyda Mot y ci bob cyfle gawn ni. Mae beicio mynydd yn ddiddordeb cymharol newydd gen i ond yn naturiol, bydd y ci yn aros adref bryd hynny!
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mae'r côr yn hynod o weithgar ac yn gefnogol iawn i gyngherddau yn ein cymunedau lleol. Dwi'n siŵr byddai rhyddhau CD arall ar gyfer Nadolig 2021 yn sbort! Ond cofiwch ei bod hi'n werth gwrando ar y rhai sydd ar gael i'w prynu ar safle we'r côr yn gyntaf.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Mae'r côr yn gyfle i ddod at ein gilydd i ganu a chymdeithasu. Ychydig o gyfleoedd felly sydd yn bodoli'r dyddiau yma ac mae angen gwneud popeth a allwn i gadw'r hen draddodiadau Cymreig i fynd.



# Beiciau Trydan ar gael!

## gan Tom Simone



Mae'r beic cyntaf wedi'i roi i ni yn Nyffryn Gwyrdd fel rhan o gynllun i retro-osod beiciau ail-law i fod yn rhai trydan.

Gobeithiwn drosi 6-10 beic a sicrhau bod y rhain ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r cynllun yn rhan o Ddyffryn Gwyrdd, sef prosiect tair blynedd a ariannir gan y Loteri Genedlaethol ac a oruchwylir gan Bartneriaeth Ogwen.

Os oes gennych hen feic mynydd neu hybrid sydd mewn cyflwr da yr hoffech ei roi i ni, cysylltwch â mi, Tom Simone, ar tom@ogwen.org.

Cyflwynodd Christian Graham o Dregarth, sy'n gweithio i Gyfeillion y Ddaear, un o'i hen feiciau, sydd bellach yn ein swyddfeydd, yn barod i'w drosi gyda phac trydan a batri newydd.

Siaradais â Chris am ei waith i Gyfeillion y Ddaear, sut mae'n ymdopi heb gar, a'i gynghorion ar gyfer ffordd fwy gwyrdd o fyw.

Gallwch wrando ar y cyfweliad hwn (yn Saesneg) ar fy mhodlediad HowGets yma.

**Pwy yw Cyfeillion y Ddaear?**

Christian: "Mae Cyfeillion y Ddaear yn gweithio i amddiffyn y blaned am 'nawr a chenedlaethau'r dyfodol.

"Mae'n sefydliad o dan arweiniad llawr gwlad, gyda channoedd o grwpiau lleol yn y DU, ac yn fyd-eang. Mae'n bodoli ers tua 50 mlynedd ac mae wedi bod yn rhan o lawer o ymgyrchoedd, ee Deddf Newid Hinsawdd 2008, ailgylchu ar stepen drws, a gwneud ardaloedd lleol yn fwy cyfeillgar i'r hinsawdd, gyda phethau fel mwy o orchudd coed."

**Sut a pham 'rydych chi'n byw heb gar?**

Christian: "Nid oedd fy rhieni yn arbennig o gyfoethog, a phan oedd gennym gar 'rwy'n cofio bod fy nhad wedi treulio mwy o amser yn ei drwsio na'i yrru! Yn fy arddegau, fe wnaethant gael gwared ohono, felly 'roeddem ni'n beicio i fynd i wahanol leoedd, a gwneud y siopa. Fel oedolyn, treuliais amser yn byw mewn dinasoedd, lle y gallai car fod yn fwy o rwystr na help. Oherwydd hyn, deuthum i arfer bod heb gar.

Pethau eraill sydd wedi caniatáu i mi feicio yn lle gyrru yw bod yn gymharol iach, byw'n ddigon agos at y lle rwy'n gweithio, a bod yn agos at Fangor, sydd â chysylltiadau teithio gweddol."

**Sut all pobl eraill ddatblygu arfer ar gyfer beicio?**

Christian: "Gall fod yn anodd newid y ffordd 'rydych chi'n teithio. Fy nghyngor i yw gwneud newidiadau bach. Rhowch gynnig ar feicio pellteroedd bychain i ddechrau, a chynyddu'r pellter yn raddol. Gall beic trydan hefyd helpu gyda rhiwiau, fel yr un yn ôl yma o Fangor!"

**Pa awgrymiadau eraill sydd gennych chi i fod yn fwy Gwyrdd?**

Christian: "1. Newidiwch eich pensiwn a'ch cyfrif banc i rai gwyrdd.

2. Ychwanegwch eich llais i ymgyrchoedd fel y rhai sy'n cael eu trefnu gan Gyfeillion y Ddaear – mae'r rhain yn gwneud gwahaniaeth.

3.Chwiliwch am weithgareddau yn eich ardal leol, fel plannu coed gyda Dyffryn Gwyrdd / Partneriaeth Ogwen."

# Dangos

Dyma gyflwyno prosiect newydd a ariannir gan Lywodraeth Cymru, sef **DANGOS** – gan gofyn am eich cymorth i annog defnyddio'r hyfforddiant a'r gefnogaeth am ddim y bydd yn eu darparu. Mae degau o filiynau o bunnoedd o fudd-daliadau a chymorth arall yn mynd heb eu hawlio yng Nghymru ar hyn o bryd. Gall yr arian hwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau teuluoedd a'u dyfodol. Mae'r rhesymau pam nad yw pobl yn manteisio ar y cymorth hwn yn niferus, ac weithiau'n gymhleth, ond y prif resymau yw nad yw pobl yn gwybod bod y cymorth ar gael, neu nad ydynt yn credu y gallent fod yn gymwys i'w gael. Hefyd, mae llawer o bobl yn nerfus ynghylch gofyn am ba gymorth a all fod ar gael iddynt. Efallai nad ydynt yn gwybod i bwy y dylent ofyn am ba gymorth sydd ar gael, neu efallai nad ydynt am ymddangos fel pe bai angen cymorth arnynt. Nod **DANGOS** yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen ynghylch y cymorth sydd ar gael. Hynny yw, pobl sydd mewn cysylltiad o ddydd i ddydd â theuluoedd y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, pa un a ydynt yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr.

Nid ydym yn mynd i geisio gwneud pobl yn arbenigwyr neu'n gynghorwyr ar fudd-daliadau, dim ond rhoi mwy o ddealltwriaeth a gwybodaeth iddynt am ba gymorth sydd ar gael, ac awgrymiadau ynghylch annog pobl i fanteisio ar eu hawliau. 'Rydym yn gwneud hyn drwy gynnig cyfres o sesiynau ar-lein am ddim i weithwyr rheng flaen ledled Cymru, gan ddechrau ym mis Ionawr2021 a pharhau drwy'r flwyddyn. Bydd y sesiynau tair awr, a fydd yn rhyngweithiol iawn, yn cael eu hategu gan becyn gwybodaeth byr, ac i'r rheiny sydd ei eisiau, mynediad am ddim at gyrsiau e-ddysgu manylach am y system fudd-daliadau a sut mae'n gweithio. Bydd y sesiynau a'r pecyn gwybodaeth yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â rhai o'r cyrsiau ar-lein. Bydd y sesiynau ar-lein yn cael eu darparu'n bennaf drwy Zoom, ond bydd nifer o sesiynau ar Microsoft Teams, lle mae polisïau sefydliadau yn gofyn am hynny. Hefyd, bydd sesiynau yn Iaith Arwyddion Prydain yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd amserau a phatrwm y cyrsiau hyn yn dibynnu ar y galw. Byddwn hefyd yn falch o ddarparu cyrsiau ar-lein, am ddim, i grwpiau o staff o'r un asiantaeth, gyda rhwng 10 a 20 ym mhob sesiwn. Efallai y byddwn yn gallu addasu'r cynnwys fel ei fod yn briodol. Mae gwefan **DANGOS** yn rhoi rhagor o fanylion ac yn galluogi pobl i gofrestru yn unigol ar gyfer sesiynau. Y wefan yw: www.dangos.cymru a www.dangos.wales. 'Rydym yn gofyn i chi annog eich staff a'ch gwirfoddolwyr, lle bo'n briodol, i gymryd rhan yn y fenter bwysig hon. Drwy fod ychydig yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a'r math o deuluoedd a all fod yn gallu ei gael, gallant wneud gwahaniaethmawr i fywydau pobl.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu osoes gennych ddiddordeb mewn sesiynau mewnol, cysylltwch â ni: info@dangos.cymru neuinfo@dangos.wales.

Diolch.

# Cronfa Gymunedol y Carneddau – Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Cronfa Gymunedol y Carneddau yw rhaglen grantiau Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer grwpiau a mudiadau di-elw yr ardal.

Rhaglen bum mlynedd yw Cynllun Partneriaeth Tirwedd Carneddau, sy'n ceisio helpu i warchod treftadaeth y Carneddau drwy gynyddu dealltwriaeth a mwynhad o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal ar draws ystod eang o gymunedau, unigolion a sefydliadau.

Gwnaethpwyd y Cynllun yn bosibl drwy ddyfarniad grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Bydd grantiau o rhwng £200 a £5,000 ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol bach i ganolig eu maint sy'n cyd-fynd ag amcanion Partneriaeth Tirwedd y Carneddau.

Dyma esiamplau o brosiectau sy'n debygol o fod yn gymwys:

- Mentrau lles - digwyddiadau cerdded cymunedol, gweithgareddau i deuluoedd a phobl ifanc, gwybodaeth newydd am yr ardal, prosiectau sy'n helpu pobl â gallu cyfyngedig i symud gael mynediad i'r Carneddau
- Trefnu digwyddiad neu ŵyl sy'n cynnwys gwybodaeth am hanes lleol, straeon am y dirwedd, bywyd gwyllt neu grefftau traddodiadol
- Hybu celfyddydau cymunedol sy'n dathlu'r dirwedd a thraddodiadau'r Carneddau
- Sefydlu cyfle i wirfoddoli sy'n cyfrannu at amcanion Partneriaeth Tirwedd y Carneddau
- Cofnodi ac adfer safle hanesyddol
- Cynhyrchu a chyhoeddi llyfrynnau a gwybodaeth ar-lein.

Derbynnir e-byst yn mynegi diddordeb o 1 Mawrth 2021. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 10 Mai 2021. Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu gyda'r tîm: carneddau@eryri.llyw.cymru



I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

Casgliad arall o bytiau o ddyddiaduron Dafydd Ifans, Glanrafon, gydag ychwanegiadau atyn nhw a allai fod diddordeb.

**Ionawr 24, 1940: M. J. Parry (Madam Telini) yn marw yn Burry Port, S. W. – yn 63 oed.**

Ganed Margaret Jane Parry yn 2 Rhes Douglas, Bethesda yn 1878, yn ferch i Robert Parry (*Trebor Llechid*) y cawn sôn mwy amdano isod.

Mae'n debyg i Margaret Jane gael gwersi canu i ddechrau gan *Pencerdd Ogwen*, sef John Samuel Williams (1852-1926), cyn cael ei dysgu wedyn gan Roland Rogers, Bangor, ac R. S. Hughes, Organydd Capel Bethesda. Enillodd y soprano ifanc rai cannoedd o wobrau mewn gwahanol eisteddfodau, gan gynnwys y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog yn 1898 dan yr enw Megan Llechid. Yn ystod Streic Chwarel y Penrhyn (1900-1903), ymunodd â'r Côr Merched a deithiodd ar led i godi arian at Gronfa'r Streic. Ar ôl i'r Streic Fawr ddod i ben, bu'n byw am gyfnod yng Nghaergybi ac, ar ôl priodi, yng Nhaeredin a Llundain. Trodd ei golygon tuag at yr Eidal wedyn ac ymgartrefu yno i gael rhagor o hyfforddiant. Dyna pryd yr enillodd enwogrwydd fel Madam Telini. Wedi treulio tua saith mlynedd yn canu mewn cyngherddau yn Llundain ac yn gwneud un ar bymtheg o recordiau, ymddeolodd yn 1934 a symudodd hi a'i gŵr i Benbre, lle bu farw yn 1940. Claddwyd hi yng Nghaergybi.

Mae'n werth ychwanegu bod taid Madam Telini, sef William Parry (*Llechidon)* wedi ennill gwobr yn Eisteddfod Gadeiriol Bethesda, 1867. Cyhoeddwyd y traethawd ym 1868 dan y teitl *Llyfr Hanes Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai*. Yna, ym 1921, ailgyhoeddwyd y gyfrol hon gan ei fab, Robert Parry (*Trebor Llechid*), tad Madam Telini, a rhoi iddi'r teitl *Ychwanegiad at Hanes Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai hyd 1920*, Dolgellau [1921]. Dwy gyfrol bwysig (a phrin erbyn heddiw) yn cynnwys chwarel o wybodaeth.

**Rhagfyr 21, 1942: Dewi Wyn Roberts, Castle House, yn cyfarfod â damwain angheuol yn Parc Penrhyn – 19 oed.**

Chweched plentyn Thomas John a Catherine Roberts oedd Dewi. Bydd rhai o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn siŵr o gofio dwy o'i chwiorydd: Rose (a gadwai'r Victoria Café yn Rhes Buddug), mam Trefor, Helen a Dafydd), a Mary (mam Heulwen, Ffordd Bangor) a chanddi hithau siop yn Castle House, Rhes Penrhyn, lle'r oedd swyddfa'r Purple Motors, a T. H. Davies, tad Heulwen, gŵr bonheddig a blaenor yng Nghapel Jerusalem, oedd yn rheolwr cyffredinol y bysys.

Soniais am T. J. Roberts a'r teulu yn *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad*, ynghyd â lluniau perthnasol, gan gynnwys llun Dewi.

Fel y nododd Dafydd Ifans, cyfarfu Dewi â'i ddiwedd yn ddamweiniol ac anamserol iawn. Rywsut neu'i gilydd, roedd Dewi wedi crwydro i Barc Penrhyn (ar dir y Castell) a'r fyddin yn ymarfer yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Lladdwyd ef pan gafodd ei daro â grenâd llaw ac yntau ond 19 oed, ar drothwy Nadolig 1942.

Dylwn nodi mai Thomas John Roberts oedd 'Tad Dewi Siop Gornal' yn *Un Nos Ola Leuad* a chofiwn mai ym 'moto Tad Dewi Siop Gornal' yr aethpwyd â'r Fam yn y nofel i'r Seilam, a'r union gar hwnnw – Ford Model T – a ddefnyddiwyd, go ddifri, i fynd â Margaret Jane, mam Caradog, i'r Seilam yn Ninbych ar Dachwedd 23 1924.

I'w barhau

# Arolwg Ffermio Mawr

Mae RABI wedi lansio'r arolwg mwyaf erioed yn ymwneud â llesiant pobl sy'n ffermio. Nod yr Arolwg Ffermio Mawr yw dod i ddeall sut mae'r heriau mwyfwy cymhleth yn y sector yn effeithio ar les meddyliol a chorfforol pobl, ynghyd ag iechyd busnesau ffermio.

Gan fod y pwysau'n cynyddu a'r ansicrwydd yn parhau yn y sector, bydd yr ymchwil hanfodol hwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr ar y gymuned ffermio ledled Cymru a Lloegr. Mae'r ymchwil yn ceisio canfod yr heriau penodol y mae cenhedlaeth o bobl sy'n ffermio yn eu hwynebu a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar fywyd bob dydd.

Mae RABI wedi cefnogi'r sector ffermio ers dros 160 o flynyddoedd, ac yn nawr mae wedi pennu'r targed uchelgeisiol o gasglu 26,000 o ymatebion arolwg yn ystod yr wythnosau hyd at 31 Mawrth 2021. Mae Prif Weithredwr RABI, Alicia Chivers, yn annog pawb ym myd ffermio i gefnogi'r prosiect.

"Er mwyn gwasanaethu ein cymuned yn effeithiol, mae angen gwella'n dealltwriaeth o sut mae'r heriau a'r ansicrwydd sy'n wynebu pobl sy'n ffermio yn effeithio ar eu bywyd bob dydd. Credwn y bydd y darn pwysig hwn o ymchwil yn ein helpu i ddeall yn well beth yw'r materion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd ac yn llywio ein dealltwriaeth," esboniodd Alicia.

"Dim ond 15 munud fydd ei angen i lenwi'r holiadur a bydd pawb sy'n cymryd rhan yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at greu darlun cynhwysfawr o fywyd ym myd amaeth heddiw. Bydd yr ymchwil yn galluogi RABI a'n partneriaid i ddatblygu offer a gwasanaethau mwy effeithiol i wella llesiant ffermwyr nawr ac yn y dyfodol."

"Yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd neu leoledig, mae gwir angen am gael tystiolaeth ddibynadwy, ar raddfa eang, ynghylch llesiant pobl sy'n ffermio. I gyflawni hyn rydym yn gweithio gyda sefydliadau a busnesau ar draws y diwydiant i hybu'r Arolwg Ffermio Mawr drwy eu rhwydweithiau. Ac yn bwysicach fyth, rydym eisiau i unigolion gymryd rhan, neilltuo 15 munud i lenwi'r arolwg, a gofyn i aelodau eraill eu cartref neu eu rhwydwaith ffermio wneud hynny hefyd.

Cynhelir yr arolwg gan y Ganolfan Ymchwil Gwledig ym Mhrifysgol Caerwysg, a bydd yn agored i'r holl ffermwyr, gweithwyr fferm, eu cymheiriaid, a phlant sy'n oedolion, tan 31 Mawrth 2021.

Mae'r arolwg ar gael ar-lein drwy wefan RABI, ac mae copïau caled yn cael eu dosbarthu hefyd mewn cyhoeddiadau ffermio allweddol.

Cymerwch ran yn http://ex.ac.uk/BigFarmingSurvey Nawr, neu gofynnwch am gopi printiedig gan FarmSurvey@exeter.ac.uk

Helpwch ni i greu darlun mwy mewn 15 munud
Pwy all gymryd rhan: Ffermwyr, gweithwyr fferm, eu cymheiriaid a phlant sy'n oedolion
Pryd: 11 Ionawr - 31 Mawrth 2021
Ar-lein: http://ex.ac.uk/BigFarmingSurvey
Print: Gofynnwch am gopi printiedig gan farmsurvey@exeter.ac.uk

Rhannwch ar y cyfryngau cymdeithasol: #ArolwgFfermioMawr
Nodau'r #ArolwgFfermioMawr
- Deall llesiant cenhedlaeth o bobl sy'n ffermio
- Deall iechyd ein ffermwyr a'u busnesau
- Cael dirnadaeth o'r pwysau allanol a'u heffeithiau
- Llunio cymorth a gwasanaethau yn y dyfodol




## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Trwy ddefnyddio Zoom cynhaliwyd cyfarfod ar ddechrau mis Rhagfyr i ddewis Ymgeisydd Llafur Etholaeth Arfon ar gyfer etholiad Senedd Cymru a dewiswyd Iwan Wyn Jones o gangen Dyffryn Nantlle. Mae Iwan yn drysorydd Plaid Lafur Arfon, yn Gymro Cymraeg ifanc, ac wedi ymladd sedd Ceredigion yn y gorffennol.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol gohiriedig y gangen ym mis Ionawr trwy ddefnyddio ZOOM ac etholwyd y canlynol: Cadeirydd: Mary Gillie, Rachub. Is-gadeirydd: Christine Cahalan: Talybont. Ysgrifennydd: Godfrey Northam, Rachub. Trysorydd: Walter Williams, Bethesda. Trefnydd yr Etholiadau: K.C. Gordon, Llanllechid. Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Gwaith Etholaeth Arfon: Susan Davies, Rachub a K.C.Gordon.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd cangen deufisol ar y drydedd Nos Fercher o'r mis, gan gynnwys y cyfarfod blynyddol ym mis Gorffennaf. Adroddwyd bod 22 o aelodau newydd yn y gangen ers y cyfarfod diwethaf.

Cafwyd adroddiad am waith Llywodraeth Lafur Cymru e.e. ni chaiff pobl ysmygu ar diroedd ysgol na chaeau chwarae plant; cafwyd pum cant o geisiadau am y grant i addasu tai gwag ar gyfer pobl di-gartref; sefydlwyd App i helpu pobl sy'n dioddef o Covid Hir, a chlustnodwyd £18 miliwn i helpu chwaraeon sydd wedi'i chael yn anodd i godi arian yn ystod cyfnod y coronafeirws.

Bwriedir cynnal Cyfarfod Blynyddol Plaid Lafur Etholaeth Arfon ar y 10fed o Chwefror trwy ddefnyddio ZOOM.

Serch argyfwng Covid-19 mae Llywodraeth Lafur Cymru'n dal i weithio'n galed ar faterion eraill e.e.: bydd benthyciadau ar gael i ail ddefnyddio lleoedd gwag ar gyfer siopau, cyfleusterau hamdden a thai; mae'r targed pum mlynedd ar gyfer y nifer o brentisiaethau wedi'i gyrraedd ac mae Cymru wedi ail gylchu mwy na'r targed o 64% eleni, gyda tharged o 70% erbyn 2025.

Rydym yn deall fod Llywodraeth Cymru'n yn debyg o ryddhau ardaloedd efo cyfradd isel o Covid-19 o gyfyngiadau'r pandemig cyn yr ardaloedd eraill.

# Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

Blwyddyn newydd dda i chi. Wrth i ni brofi cyfnod clo arall yng Nghymru, gyda chyfyngiadau teithio yn ein cadw i'r filltir sgwar, a chan bod hi'n fis Ionawr lle ydan ni'n tueddu i wneud addunedau i gadw'n iach, roeddwn yn meddwl y byddai'n amserol i drafod gwefannau ac apiau sy'n denu pobl i'r awyr agored ac i werthfawrogi byd natur.

Cofiwch nad oes raid dringo mynydd neu gerdded mewn coedwig law Geltaidd i ganfod bywyd gwyllt - mae llawer i'w ddarganfod ar garreg eich drws, boed yn forgrug neu robin goch. Hyd yn oed os ydych yn byw ynghanol dinas fel Caerdydd, mae natur o fewn tafliad carreg i ni.

Mae ymchwil yn dangos fod gweld gwyrddni a natur yn llesol i'n iechyd meddwl a chorfforol, ac mae gwir angen am hynny pan ydym yn byw mewn cyfnod clo.

Y gred arferol yw fod technoleg yn eich nadu rhag mynd allan a chael awyr iach, ond i'r gwrthwyneb, mae'n gallu hwyluso a thanio'ch diddordeb mewn byd natur.

Mae defnyddio Google Maps yn ffordd dda o ddechrau arni er mwyn i chi greu llwybrau a chynllunio a darganfod lleoliadau o ddiddordeb. Mae'n bosibl chwilota a phori trwy'r wefan https://www.google.com/maps/

Gallwch fynd ymhellach, a chael blas ar y golygfeydd sy'n rhan o'ch dewis daith trwy ***Google Streetview*** - mae hwn i'w gael ar waelod y map fel dyn bach. Er mwyn ei agor, mae angen llusgo'r dyn i'r lleoliad o'ch dewis – mae'n bosibl hyd yn oed cerdded i ben Yr Wyddfa! Gellir defnyddio hwn ar liniadur, ffon clyfar neu dabled/llechen electronig. Mae Google Earth hefyd ar gael yn yr app store ar eich tabled neu ffon clyfar. Teipiwch Google



Earth yn Google ac fe ddewch ar ei draws os mai gliniadur sydd gennych.

Ond mae apiau ar gael sy'n ddefnyddiol tu hwnt ar gyfer adnabod bywyd gwyllt, heb i chi orfod mynd yn bell. Ac i bobl sy'n methu cerdded yn bell, mae yna apiau difyr i adnabod natur ar garreg eich drws. Mae ***Seek*** gan ***INaturalist*** yn eich helpu chi i adnabod bywyd gwyllt o'ch cwmpas, o'r adar yn yr awyr i'r madarch wrth eich traed, ac mae'n gweithio'n gymharol dda. Sut mae'r apiau hyn yn gweithio? Pan fyddwch yn agor yr ap a thrwy bwyso'r symbol lens, mae hwnnw wedyn yn agor y camera ar eich ffôn, yna, anelwch y camera at y gwrthrych dan sylw gan dynnu ei lun. Bydd yr ap wedyn yn gwneud y gwaith o'i adnabod – rhowch funud iddo. Ond cofiwch fod diffyg signal yn gallu effeithio ar hyn!

Mae yna apiau eraill yr ydw i wedi eu gweld yn ddefnyddiol, ac mae un lle'r ydych yn gorfod talu amdano, sef ***PictureThis*** – unwaith yn rhagor yn dilyn yr un egwyddor â'r apiau y crybwyllais i o'r blaen. Ond arbenigedd yr ap hwn yw adnabod planhigion ac mae'n gywir iawn. Mae rhai apiau adnabod natur, wedi'u hanelu at fywyd gwyllt mewn cynefinoedd yn yr Unol Daleithau er enghraifft, ac ni fyddant yn debyg o adnabod planhigion yn gywir yng Nghymru a gweddill ynysoedd Prydain ac Iwerddon, gan yn hytrach eu hadnabod fel rhywogaethau sy'n tyfu neu'n byw yng Nghaliffornia neu rywle tebyg! Felly byddwch yn ofalus.

Byddaf i'n gwneud defnydd da o apiau sy'n perthyn i'r un teulu, sef ap Tree Id, Mushroom Id a Tree Id a Bird Id – nid eu pwrpas yw adnabod rhywogaethau, dim ond rhoi canllaw gwybodaeth i chi. Caiff y Bird Id ddefnydd cyson gyda'r mab Gwern sy'n 5 oed, lle mae'n bosibl gwrando ar recordiad o drydar yr aderyn, a lle ceir disgrifiad ohono – mae'r ap yn adnodd addysgol wych i bob oed.

Y pwysicaf oll o'r holl adnoddau sydd ar gael yw Cymuned Llên Natur ar Facebook. Wrth gwrs, dyma'r ffordd orau bosibl i drafod byd natur gydag eraill, - dysgu, cymharu, rhannu lluniau, gofyn cwestiynau i arbenigwyr, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Chwiliwch am y wefan ar Facebook, -mae'n werth bod yn rhan o'r Gymuned os oes gennych ddiddordeb yn y maes. (https://www.llennatur.cymru/ neu https://www.facebook.com/llennaturcymru ). Os ydych chi hefyd yn wrandawr ffyddlon ar raglen Galwad Cynnar ar BBC Radio Cymru ar foreau Sadwrn fel yr wyf i, mae'r rhaglen wedi dechrau grŵp i rannu lluniau. Chwiliwch am y grŵp Galwad Cynnar yn y man chwilio ar dop tudalen Facebook.

Gobeithio y bydd yr apiau a'r gwefannau uchod yn ddefnyddiol er mwyn gwerthfawrogi byd natur gerllaw. Rhowch dro arnynt a mwynhewch.

Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed ac angen cymorth digidol, mae croeso i chi ebostio Cymunedau.Digidol@wales.coop.

---

Annwyl ddarllenwyr,
Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Urdd Gobaith Cymru wedi – ac yn parhau – i wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Rydym wedi gorfod colli hanner ein gweithlu (dros 160 staff) ac yn rhagweld colled incwm o oddeutu £14M dros y ddwy flynedd nesaf. Oni bai am gefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru bydden ni wedi bod mewn sefyllfa llawer mwy trychinebus, a'r gefnogaeth ariannol ychwanegol wedi ein galluogi, yn syml, i gadw ein pennau uwchben y dŵr a sicrhau y bydd Urdd yn gallu goroesi.

Mae hi wedi bod yn gyfnod o bryder mawr, ac mae gwaith caled iawn o'n blaenau o hyd. Ond, rwyf yn hynod falch ein bod fel mudiad wedi gallu arall-gyfeirio rhai o'n gwasanaethau er mwyn cadw cysylltiad gyda'n haelodau.

Mae ein gwersylloedd wedi agor eu drysau i gynnig cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus, rydym wedi sefydlu cyfleodd ddigidol yn ein meysydd Ieuenctid, Chwaraeon a'r Celfyddydau, yn parhau i redeg ein gwasanaeth Prentisiaethau, wedi llwyddo i hyrwyddo Neges Heddwch ac Ewyllys i gynulleidfa o dros 37 miliwn, wedi cynnal Eisteddfod T llwyddiannus ac wedi creu a chynnal digwyddiadau rhyngwladol rhwng aelodau'r Urdd a phobl ifanc Alabama a'r Iwerddon.

Braint oedd cael hefyd cydweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth lansio ein hymgyrch codi arian, 'Het i Helpu', cyn y Nadolig. Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd i'r Urdd yn ein cymunedau ar draws Cymru (a thu hwnt!) wedi codi ein calon ni fel mudiad, a fedraf i ddim diolch ddigon i bawb sydd wedi'n cefnogi.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o blant a phobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiad o'n hiaith a'n diwylliant ac ar drothwy ein canmlwyddiant rydym yn edrych i'r dyfodol gydag agwedd bositif ac hyderus. Mi ddaw'r Urdd drwy'r cyfnod yma, yn gryfach ac yn barod i weithredu er budd plant a phobl ifanc Cymru unwaith yn rhagor.

Diolch o waelod calon i chi am yr holl gefnogaeth.

Cofion gorau,
Siân Lewis, Prif Weithredwr
Os hoffech wneud cyfraniad tuag at yr Urdd gallwch wneud hynny drwy ymweld â'n gwefan (urdd.cymru/cyfrannu), neu drwy anfon siec yn daladwy i Urdd Gobaith Cymru at:
Adran Ariannol Urdd Gobaith Cymru
Gwersyll yr Urdd
Glan-llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd
LL23 7ST

# gair neu ddau

## John Pritchard

**BRECHLYN A REIS**

Phrynodd rhai pobl na phasta na reis na phapur toiled ers blwyddyn. Os cofiwch, bu cryn feirniadaeth arnyn nhw am brynu a phentyrru cyn y Cloi Mewn gan amddifadu eraill, yn cynnwys gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd, o'r pethau hynny. Oedd ar bobl wir angen deg paced o basta a deg dwsin rholyn o bapur toiled? Cyngor doeth Boris Johnson ar y pryd oedd, 'Byddwch yn gyfrifol, a meddyliwch am bobl eraill'.

66.8 miliwn o bobl sy'n byw yng ngwledydd Prydain yn ôl cyfrif mwyaf diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n cywain gwybodaeth am bethau o'r fath i Lywodraeth San Steffan. Erbyn Chwefror 1, roedd bron i 9 miliwn o'r bobl hynny wedi cael eu brechiad Covid cyntaf; a'r gobaith oedd y byddai 6 miliwn arall wedi cael y brechiad erbyn Chwefror 15. Erbyn Chwefror 1 hefyd, roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ôl gwefan *gov.uk*, wedi sicrhau '*bumper portfolio of over 400 million vaccines*'.

Wedi'r holl sôn am y brechlyn dros y misoedd diwethaf, diolchwn i Dduw fod hwnnw i'w gael erbyn hyn. Mae llawer ohonoch wedi cael y brechiad cyntaf. Pan ddaw fy nhro i, pryd bynnag fydd hynny, mi fyddaf innau fel chithau'n ddiolchgar amdano. Ond er mor ddiolchgar, mae'n anodd peidio â theimlo'n anesmwyth o glywed y ffordd y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig mor barod i ymffrostio bod gennym yng ngwledydd Prydain fwy o'r brechlyn nag unman arall. Rwy'n deall fod y pethau hyn yn eithriadol o gymhleth a bod ar y Llywodraeth gyfrifoldeb i wneud ei gorau dros y boblogaeth. Rwy'n deall hefyd nad yw'r 400 miliwn brechlyn wedi ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Ond mae o leiaf ddau beth yn peri'r anesmwythyd. Yn gyntaf, y modd y mae Llywodraeth San Steffan yn amlwg, ac yn gwbl ddigywilydd, yn defnyddio'r ffaith iddi sicrhau cyflenwad enfawr o'r gwahanol frechlynnau i gyfiawnhau Brexit. 'Ylwch cystal ydan ni'n ei wneud o'i gymharu â gweddill Ewrop!' Aflednais yw'r chwarae gemau gwleidyddol hyn yng nghanol pandemig.

Yn ail, ac yn waeth, ydi'r perygl mai pasta a reis a phapur toiled y Llywodraeth fydd y brechlyn dros y misoedd nesaf. Synnwn i ddim na fydd y 400 miliwn yn 450 neu 500 miliwn cyn bo hir. O gofio y bydd 140 miliwn brechlyn yn ddigon i roi dau ddos i holl boblogaeth y Deyrnas Unedig, oes angen 400 a 500 miliwn arnom? Mae gwefan gov.uk yn mynnu bod y Deyrnas Unedig yn gwneud mwy na'r un wlad arall er sicrhau y bydd gan 92 o wledydd tlotaf y byd gyflenwad o frechlyn eleni; ac eto mae'r ymffrost a'r holl bentyrru rywsut yn awgrymu y dylai Mr Johnson ddweud eto wrtho'i hunan a'i Lywodraeth: 'Byddwch yn gyfrifol a meddyliwch am bobl eraill.'


Boed i bawb ohonom wneud yn debyg. Neu, yng ngeiriau Iesu Grist, 'Fel y dymunwch i eraill wneud i chwi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy' (Luc 6:3).



# Croesair Chwefror 2021

**AR DRAWS**
1 Do, ma' fo wedi mynd yn ôl i gadw rhan o'r cytundeb (4)
4 Swnio fel pe bai yn eich cwpan, onid e (4)
8 Hau ac ymddiried yn ei le, neu bydd yn rhaid dweud sori (11)
9 'Y Dymestl' ac 'Arafa Don' (3,3)
10 Ei le yn fore yn ei wneud yn grynedig a rhynllyd (6)
11 Dod ynghyd a mynd yn un (5)
12 Lle i hel straeon a chlebran ar ben drws yn ôl Kate Roberts (5)
16 Y gynfas yn daclus, ond heb lawer o bwysau iddi ar y gwely (6)
18 Mae rhoi dant y llew i'w wely yn arwain i hyn yn ôl traddodiad (6)
19 Cyfuniad o Seland Newydd a'r gwledydd mawr a mân cyfagos (11)
20 Pwniad i'r tân neu i'r cof (4)
21 Dychwelyd i ama'r duw Hindwaidd (4)

**I LAWR**
2 Yn ymwneud â iechyd a doctoriaid (7)
3 Mae hi'n duo yn ffwndrus ar ôl noson dda o gwsg (6)
4 - - - - - - Prydain â'r Undeb Ewropeaidd yn 1973, gan adael yn 2020 (6)
5 Ar y tar ei gylch crwn o rwber (5)
6 Amcan gwŷr sy bob amser yn barod i helpu (11)
7 Dychwel adra i weld ei lun yn y drych (11)
13 Mi ddaru ni dalu ar fyrder am y neges (7)
14 Côt uchaf fer yr oes hon (6)
15 Person addysgedig (6)
17 Gair mawr Llyfr y Pregethwr, pennod 3 (5)




**ATEBION CROESAIR IONAWR 2021**
**AR DRAWS** 2 Dychymyg, 7 Medi, 8 Lamp, 9 Gwisg, 10 Weiren, 11 Rhagori, 12 Oen, 14 Bragu, 16 Hollti, 18 Gen, 21 Iddewon, 23 Cadair, 24 Llinyn, 25 Cnaf, 26 Euog, 27 Anwydus
**I LAWR** 1 Cellwair, 2 Digio, 3 Chwilio, 4 Migwrn, 5 Gleidio, 6 Amlen, 13 Efe, 15 Gwladfa, 17 Troellog, 18 Gerllaw, 19 Nionod, 20 Carno, 22 Ernes

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig i beidio ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.



**Siân Gwellian**
**Aelod o'r Senedd dros Arfon**

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@senedd.cymru



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
**williamshy@parliament.uk**



# Nyth y Gân



## Y FAM TERESA

Ei nod oedd gwella'r tlodion, a hwy'n llu
Mor llesg yn eu carthion;
Diwyd o hyd y bu hon
Yng nghanol eu hanghenion.

**Y TIR DAN EIRA**
Yn dir gwan wedi'r gwynnu, y ddaear
A ddaw y pryd hynny
Yn ffein, ond nid yn ffynnu
Yn ei blaen dan gôt o blu.

**ARDAL LAWOG**
Lle hynod am gafodydd, a defaid
Yn dyfod o'r gweunydd;
I'w hynt daw llif y nentydd
A rhed eu dŵr hyd y dydd.

**HEN FFEFRYN**
Hen alaw sy'n ymelwa o hawlio
Calon cynulleidfa;
I'r dorf drwy ddawn cerddorfa
Hed y dôn â'i nodau da.

**CHWARELWR**
Morthwylion ar gynion ganodd, a'r graig
Oer, gref yno rwygodd;
Efo'i gyfaill fe gafodd
Un rhan o'r fargen yn rhodd.


**YR HEN ŴR A'R GWANWYN**
Bu'n crwydro am flynyddoedd
Hyd gulion lwybrau'r fro,
A llawer o atgofion
Fu'n hel yn nwfn ei go'.

Mae'n cofio fel y byddai
Y blagur ar y coed
A'r tyfaint bendigedig
A siglai dan ei droed.

Roedd synau mor rhyfeddol
I'w clywed yno'n glir,
A'r lliwiau mor drawiadol
Mewn gwrychoedd ac ar dir.

Dychwelai yno fywyd
Fel ag y gwnaeth sawl tro
Yn hynod, llawn gobeithion
Fu'n drysor iddo fo.

**DAFYDD MORRIS**




**DEFOD Y GWANWYN**
Ei nwyd sydd mor nodedig, – a'i fisoedd
Sy'n fiwsig cyntefig;
Mae'n cadw oed mewn coedwig
A'i ddeffro yn gyffro gwig.

**LILI WEN FACH**
Ym main hin, eu clysineb – yw gynnau
Gwynion llawn disgleirdeb;
Tirion ŷnt yn y tir neb
Yn rhinwedd eu taerineb.

**YR HIRLWM**
Anhyfryd ym mis Chwefror,
O'i oer dŷ agorir dôr
I gof am hen ddygyfor.

Yn frau saif y llethrau llwyd,
Daear glaf uwch adwy'r glwyd
A'i baw, a'r da angen bwyd.

Gwyw yw'r haul â'i wg ar hesg,
Oer gusan ar y Gaseg
A chrygni yn ei lli llesg.

A balch yw swae'r fwyalchen
Yn hir-ddisgwyl yr hwyl hen
A naws hael cynnes heulwen.

Yn awr y tro tymhorol,
Hindda a'i nwyf a ddaw'n ôl
I'n herwau yn amserol.

**GORONWY WYN OWEN**

# YSGOL LLANLLECHID

**Gwellhad Buan**
Anfown ein cofion at Mrs Wendy Jones sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid, Anti Wendy.

**Pen-blwydd Hapus**
Pen-blwydd hapus arbennig i Mrs Helen Roberts, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus Helen!

**Mrs Helen Williams**
Mae pawb yn Ysgol Llanllechid hefyd yn dymuno pen-blwydd hapus arbennig i Mrs Helen Williams, ac yn anfon ein dymuniadau gorau ar gyrraedd cyrraeg filltir arbennig. Gwyddom am holl waith Mrs Williams yn y gymuned, yng nghapel Carmel, ac yma efo ni yn Ysgol Llanllechid, a mawr yw ein diolch. Dymuniadau gorau i chi, a chewch ddathlu yn iawn ar ôl i'r hen aflwydd yma basio heibio. 'Roedd aderyn bach yn dweud wrthyf fod ystafell fyw Mrs Williams fel siop flodau, – pawb wedi cofio amdanoch, ar eich diwrnod arbennig! Bendigedig!

**Ysgol Heddwch**
Mewn cydweithrediad â'r ysgol yr ydym wedi gefeillio â hi yn yr India, lle mae Avantika, ein cyfaill, yn brifathrawes, bu'r disgyblion hŷn yn trafod themau dinasyddiaeth byd eang. Bu cryn drafod ar y cysyniad o 'heddwch', a chafwyd ymatebion aeddfed gan ein disgyblion hynaf.

**Y Fari Lwyd**
Mrs Parry Owen oedd yn frwd dros ddathliadau'r Fari Lwyd yn ein hysgol, ac mae'r arfer yn parhau, wrth i bob dosbarth fynd i'r afael â gwahanol weithgareddau i groesawu'r flwyddyn newydd. Dysgwyd y rhigymau, cyfansoddwyd rhai newydd, a chynigiwyd afalau calennig i'r holl ddosbarthiadau. Arferon gwerth eu harddel.

**Ela a Lili**
Rydym yn falch fod yr apwyntiad diwethaf yn Alder Hey wedi mynd yn dda. Dyma'r ddwy yn ymddangos ar raglen Anrhegion Melys Richard Holt ar S4C.



**Bwydo'r Adar**
Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn edrych ar ol yr adar yn ystod y tywydd gaeafol, drwy wneud bwyd arbennig iddynt. Bu ymgyrch yn yr ysgol hefyd i ddysgu enwau'r adar sy'n dod i'w gerddi ac i erddi'r ysgol. Gwelwyd ambell i ditw tomos las, llinos werdd, ji-binc, y nico a'r dryw bach, ymysg eraill.



Ela a Lili

**Sialens Milltir y Dydd**
Yn ystod y Cyfnod Clo, mae llawer o'r disgyblion wedi ymateb i'r sialens hon, a braf yw gweld eu hymdrechion. Mae dod i adnabod ein hardal leol a dysgu enwau'r caeau a'r llwybrau lleol ayb yn wastad ar frig ein agenda.

**Urdd Gobaith Cymru**
'Roedd Ionawr 21 eleni yn ddiwrnod arbennig, wrth i ni nodi 99 mlynedd ers i Ifan ab Owen Edwards gyhoeddi y byddai'n sefydlu Urdd Gobaith Cymru yn y cylchgrawn Cymru'r Plant. Er mwyn nodi'r digwyddiad, bu ein disgyblion yn ffilmio eu hunain yn nodi beth mae'r Urdd yn ei olygu iddynt hwy. Ambell un yn nodi Mr Urdd, wrth gwrs!

**Santes Dwynwen**
Cafwyd gweithgareddau gwych i gofnodi diwrnod Santes Dwynwen, Santes y Cariadon. Bu rhai yn brysur yn gwneud llwyau caru, mwclis, calonnau, cardiau, ac wrth gwrs, gwrando ar y stori ryfeddol hon sy'n rhan annatod o'n harferion.

**Celtiaid ac Ati**
Bu dosbarth Mrs Marian Jones yn dysgu ac yn cyflawni pob math o weithgareddau diddorol am y Celtiaid, gan ddylunio blancedi fel rhai Anna Pritchard ac ati. Pan mae pawb yn cyfarfod ar lein, cafwyd sesiwn dweud jocs; dyma un ohonynt: Pwy sy'n ddu a gwyn, a chanddo drwyn coch disglair? Ia – MWWdolff siwr iawn!

**Cyfnod Clo**
Wrth i'r Cyfnod Clo rygnu yn ei flaen, a ninnau erbyn hyn wedi rhoi llawer o gyfrifiaduron allan i'n teuluoedd i'w benthyg, rydym yn ffyddiog fod gennym y cydbwysedd cywir wrth i'r plantos fynd ati i ddysgu yn eu cartrefi. Diolch i chi rieni am eich sylwadau cadarnhaol a'ch adborth doeth; gyda'n gilydd' rydym yn llwyddo i helpu pob disgybl yn ystod y pandemig yma. Fel rhieni, 'rydych yn llwyddo i gyflawni cymaint; rhai ohonoch yn gweithio o'r cartref ac yn llwyddo i helpu'r plant gyda'r tasgau hefyd. 'Rydym ni i gyd yn gwerthfawrogi hyn, ac yn sylweddoli pa mor anodd yw'r cyfnod yma i bawb. Mae'n braf gweld lluniau'r plant hefyd yn mynd am dro yn eu milltir sgwâr, sy'n hynod o bwysig, gan fod gormod o amser o flaen sgrin yn gallu bod yn niweidiol. Felly, y neges o Ysgol Llanlelchid yw: gwnewch be' fedrwch chi, a diolch o waelod calon!

# YSGOL TREGARTH

**Cyfnod Clo**
Ers sawl wythnos mae staff ysgol Tregarth wedi bod yn cynllunio a pharatoi nifer o weithgareddau amrywiol ar gyfer plant sy'n dysgu o bell, yn ogystal â pharhau i addysgu plant gweithwyr hanfodol sydd yn ein hysgol. Dyma'r hyn y mae pob dosbarth wedi'i wneud dros yr wythnosau diwethaf:

**Dosbarth Llywelyn**
Er ei bod yn amser rhyfedd ac anodd iawn unwaith eto, mae plant blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn brysur iawn adref ac yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt, a'u rhieni, am gyflawni nifer fawr o'r tasgau sy'n cael eu gosod yn wythnosol. 'Rydym wedi derbyn nifer o luniau o'r plant yn mwynhau, a braf yw gweld hyn. 'Rydym wedi bod yn dysgu am 'Y Gaeaf' ers sawl wythnos. Mae wedi bod yn gyfle gwych i'r plant fynd allan o gwmpas yr ardal leol er mwyn arsylwi a dysgu am arwyddion y gaeaf. Cawsom hefyd wythnos o ddathlu 'Santes Dwynwen'. Mae'r plant wedi bod wrthi'n dysgu'r hanes, dylunio a chreu llwyau caru, creu cerdyn lliwgar a choginio bisgedi blasus.

**Dosbarth Ogwen**
Dyma ni eto, yng nghanol cyfnod clo arall - cyfnod ychydig yn wahanol i'r diwethaf yn nosbarth Ogwen, gan ei bod ni wedi bod yn cymryd rhan mewn gwersi byw ar-lein yn wythnosol. Bu'r plant yn mewngofnodi am 9:30 yn ystod y boreau i gymryd rhan yn y gwersi wrth weithio o adref. 'Rydym wedi bod yn astudio ar y thema 'Teithio', gan edrych ar atyniadau twristiaeth o gwmpas y byd ac ymchwilio i wahanol wledydd. Bu'r plant yn creu rhai o'r atyniadau twristiaeth, labelu gwledydd De America, ac ymchwilio i ddod o hyd i ffeithiau am wlad o'u dewis, ymysg amryw o dasgau eraill.

**Dosbarth Ffrydlas**
Mae dosbarth Ffrydlas wedi bod yn brysur iawn yn gweithio o bell yn ystod y mis diwethaf. 'Rydym yn canolbwyntio ar y thema 'Breuddwydion', ac wedi ymchwilio i, ac astudio, chwedlau y Mabinogi. Hefyd, mae llawer o blant y dosbarth wedi bod yn brysur iawn yn creu llwy garu yn dilyn ein gwers fyw ar ddiwrnod Santes Dwynwen. Cawsom gyfle i gymryd rhan mewn gwers fyw gan 'Winterwatch' ar y BBC, yn canolbwyntio ar adnabod amryw o adar gwahanol. Mae plant y dosbarth wedi meddwl am syniadau gwych ar gyfer gweithgareddau'r wythnos nesaf yn dilyn y wers! Da iawn chi blantos!

**Dosbarth Idwal**
Dyma ni yn ôl i ddysgu o bell ar gychwyn blwyddyn newydd. Unwaith eto, mae'r plant wedi addasu'n dda, ac yn brysur dros ben yn dysgu'n rhithiol ac ar-lein. Mae'r ardal wedi gweld dipyn o rew ac eira dros yr wythnosau diwethaf ac felly dewis naturiol oedd dilyn y thema 'Gaeaf'. Cafodd y disgyblion brofiadau hyfryd yn chwarae yn yr eira ac yn adeiladu dynion eira. Bu pawb yn disgrifio'r dyn eira ar lafar gan ddefnyddio ansoddeiriau, gydag ambell un yn cofnodi brawddegau hefyd. 'Roedd rhewi teganau yn weithgaredd boblogaidd arall, a bu'r disgyblion yn gosod y rhew mewn gwahanol leoedd yn y tŷ, er mwyn gweld ym mha ran ohono y byddai'rhew am toddi gyflymaf.

Buom yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen, ac mae nifer o ffrindiau ac aelodau'r teulu wedi derbyn cardiau hyfryd gan y plant. Mae cogionio hefyd yn weithgaredd bobologaidd, ac 'roedd y bisgedi siâp calon yn edrych yn flasus dros ben.


Yn ogystal â hyn bu cyfle i ymarfer sgiliau darllen gyda gweithgareddau 'Tric a Chlic', digon o ganu, a sesiynau ffitrwydd rheolaidd. Mae'n bosibl hefyd eich bod wedi gweld disgyblion Ysgol Tregarth yn mynd ar helfa llythrennau a rhifau o amgylch y pentref. Plant prysur dros ben! Rhaid diolch hefyd i'r rhieni sydd yn weithgar iawn yn cefnogi'r disgyblion gyda'r Gwaith - diolch o galon i chi, a chadwch yn saff i gyd.

Dyma luniau o ambell un o'r gweithgreddau y bu'r plant yn brysur yn eu gwneud:












## YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Gair gan Y Pennaeth**
Ar gyfnod gwahanol iawn i'r arfer, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi i gyd, yn ddisgyblion, yn rieni, a'r gymuned yn ehangach, am eich cefnogaeth a'ch dyfalbarhad yn ystod y flwyddyn. 'Rydym wedi llwyddo i drawsnewid yr ffordd y mae disgyblion y Dyffryn yn derbyn eu haddysg. Heb gyd-weithio effeithiol rhwng staff yr ysgol a'r teuluoedd ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant am holl waith staff yr ysgol wrth weithio yn ddiwyd i ddarparu addysg i'r disgyblion.

**Ymweliadau Blwyddyn 6**
'Rydym wedi bod yn brysur yn croesawu disgyblion bl.6 ysgolion y Dyffryn yma i flasu rhai o'r profiadau y byddant yn eu cael wrth drosglwyddo yma ym mis Medi – profiad llawer mwy gwerthfawr na gwylio clipiau fidio. Edrychwn ymlaen at eich croesawu eto!

**Gweithdai Seren**
Mae nifer o weithdai rhithiol ar gyfer disgyblion talentog yr ysgol wedi'u cynnal eleni – gweithdai yn ymwneud â chodi dyheadau gan Brifysgol Rhydychen i fl.11, a gweithdy adolygu gyda bl.9. Mae blynyddoedd 8 a 10 hefyd wedi manteisio ar y cyfleoedd.

**Noson Wobrwyo**
Er yr holl amharu ar fywyd arferol ysgol, mae'n rhaid cydnabod llwyddiannau. Eleni cynhaliwyd ein noson wobrwyo flynyddol yn rhithiol. Llongyfarchiadau i bob un o'r disgyblion a enillodd wobr, pob un yn llawn haeddiannol. Isod mae linc i'r noson os na lwyddoch i'w gwylio:
https://clickv.ie/w/_sDo

**Ewyllys Da**
Cafodd nifer o focsys Nadolig wedi eu hanfon at unigolion llai ffodus, ac mae'r 6ed dosbarth wedi llwyddo i feicio dros 200 o filltiroedd er mwyn codi arian at achosion da.

**Noson Garolau**
'Roeddem yn benderfynol o beidio a gadael i'r sefyllfa ein trechu, felly, 'roedd ein noson garolau blynyddol, a gynhelir yn arferol yn Eglwys Glanogwen, yn cael ei chynnal yn rhithiol. 'Roedd ein disgyblion a staff wedi bod yn gweithio yn hynod o galed i baratoi. Eto, mawr yw ein diolch iddynt hwy.
Isod mae linc i'r noson:
https://clickv.ie/w/rSbp

**Comisiynydd Y Plant**
Derbyniwyd gwahoddiad gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, i ddisgyblion YDO fynychu sesiwn holi ac ateb rhithiol gyda hi – braint fawr i ddisgyblion YDO. Trafodwyd materion pwysig yn ymwneud â'u haddysg yn ystod y cyfnod heriol hwn. 'Roedd canmoliaeth enfawr i'r criw fu'n trafod â hi. Da iawn wir.

**Prif Ddisgyblion**
Yn ystod y tymor etholwyd Elin Roberts a Cerwyn Roberts yn brif ddisgyblion, gyda Ryan Pople a Jamie-Anne Davey yn cael eu hethol fel dirprwyon. Dymuniadau gorau iddynt wrth iddynt fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau.

**Nofio**
Llongyfarchiadau mawr i Catherine Roberts, blwyddyn 12, sydd wedi cael ei dewis i garfan datblygu nofio Cymru. Dymuniadau gorau iddi.

**6ed Dosbarth**
Mae hi wedi bod yn dymor prysur i'r 6ed, wrth iddynt gynllunio eu camau gyrfa nesaf. Hoffem ddiolch i Sera Mai Williams o brifysgol Bangor am sesiynau rhithiol ac i Elliw Baines o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu cefnogaeth.


**Nosweithiau Rhieni**
Yn ystod y tymor diwethaf, oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni fu'n bosibl i ni gynnal nosweithiau rhieni fel yr arfer. Fodd bynnag, 'rydym wedi defnyddio arddull o wneud rhain yn rhithiol y tymor yma – byddwn yn cysylltu gyda'r manylion efo pawb mewn da bryd.

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
01248 602537


JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Darlith Goffa Rhiannon Rowlands
(Darlith rithiol drwy gyfrwng Zoom)

Dr John Elwyn Hughes yn trafod
**"Trysorau Coll Caradog Prichard"**

7pm nos Lun 8fed Mawrth 2021
Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org** erbyn pnawn Gwener 5ed Mawrth ar yr hwyraf

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE